2. Mae'n rhaid cyflawni'r datblygiad a ganiateir yma yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd isod:  
Location Plan  
Proposed Site Plan Ref E.3/18 received on 21/06/21
3. Rhaid cwblhau'r holl waith plannu, hadu neu dywarchu a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd yn ystod y tymor plannu a hadu cyntaf, ar ôl cwblhau'r datblygiad; a bydd yn rhaid plannu coed neu blanhigion newydd o fath a maint cyffelyb yn lle unrhyw rai sy'n cael eu clirio ymaith neu eu difrodi'n ddifrifol neu gael clefyd cyn pen 5 blynedd o gwblhau'r datblygiad, a hynny yn ystod y tymor plannu nesaf.
4. Bydd rhaid i unrhyw arwyddion sy'n gysylltiedig a'r datblygiad a ganiateir yma fod yn ddwyieithog.
5. Ni chaniateir defnyddio'r man parcio dros nos gan gampyrfaniau a chartrefi modur.

#### **Rhesymau:**

1. I gydymffurfio a Rhan 91 (fel y diwygiwyd) o'r Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990.
2. Er mwyn diffinio'r caniatâd ac i osgoi amheuaeth.
3. Er mwyn gwarchod a gwella amwynderau gweledol yr ardal, yn unol â Pholisïau Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 ac yn enwedig Polisi 1.



4. Yn unol â Polisiau Cynllun Datblygu Lleol Eryri ac yn enwedig Polisi Datblygu 18.
5. Er mwyn gwarchod a diogelu mwynderau yr eiddo cyfagos yn unol â Polisiau Cynllun Datblygu Lleol Eryri ac yn enwedig Polisi 1.

#### NODIADAU CYNGHOROL

1. Bydd rhaid i'r Ymgeisydd gymeryd yr holl fesurau priodol i atal dwr wyneb o gwrtil y safleoedd i arllwys i'r briffordd.
2. Cyfarwyddir yr ymgeisydd i ysgrifennu at y Rheolwr Gwaith Stryd i gael hawl o dan Adran 171/184 o'r Ddeddf Priffyrdd, 1980, i gario unrhyw waith allan o fewn y ffordd/palmant/ymyl glas sydd yn angenrheidiol i adeiladu'r fynedfa. Gallwch hefyd gysylltu ag Uned Gwaith Stryd Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 am y ffurflenni perthnasol.
3. Yn ychwanegol i'r uchod, bydd angen newid y sistem parcio ar y stryd presennol o flaen y safle i sicrhau mynediad i'r man parcio arfaethedig. Cyfrifoldeb yr Adran Briffordd yw i drefnu y newidiadau hyn, bydd y newidiadau hyn i'w gwneud ar ôl derbyn cais am drwydded o dan Adran 171/184 o'r Ddeddf Briffordd 1980.

4. DEDDF LLIFOGYDD A RHEOLI DWR 2010  
RHEOLIADAU DRAENIO CYNALIADWY (GWEITHDREFN  
CYMERADWYO A MABWYSIADWY) (CYMRU) 2018  
Yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth ar 7 Ionawr 2019 mae systemau draenio cynaliadwy wedi dod yn ofyniad gorfodol ar ddatblygiad newydd lle mae'r ardal adeiladu yn 100m<sup>2</sup> neu fwy. Ystyrir y bod y datblygiad hwn yn fwy na'r trothwy a nodwyd uchod a olygai bod angen caniatâd Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) gan y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB) perthnasol, cyn i'r adeiladwaith ddechrau.

O ganlyniad, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB) perthnasol, h.y. Cyngor Gwynedd am gyngor ac arweiniad ar y mater hwn.





OS MasterMap 1250/2500/10000 scale  
 Monday, March 12, 2018, ID: CM-00696985  
[www.centremapslive.co.uk](http://www.centremapslive.co.uk)  
 1:1250 scale print at A4, Centre: 258709 E, 323207 N  
 ©Crown Copyright Ordnance Survey. Licence no. 100019980



FOR A BETTER POINT OF VIEW



AMENDMENTS		
NO	Date	By
Do not scale this drawing Site dimensions to be checked This drawing is copyright		
CHANGE OF USE OF PLAYING FIELD TO CAR PARK		
DYFFRYN ARDUDWY		
REF.	DRAWING	
E.3/18	02 EXISTING	S — —
1:100 @ A3		
DRAWN	GLA	DATE 04/2018
<b>GERAINT LEWIS ASSOCIATES</b> ARCHITECTURAL DESIGNERS, PLANNING CONSULTANTS BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS BRYN RHEDYN . LLANELLYD DOLGELLAU . GWYNEDD . LL40 2SU TELEPHONE : 01341 422370		





EXISTING SITE PLAN



AMENDMENTS		
NO	Date	By
Do not scale this drawing Site dimensions to be checked This drawing is copyright		
CHANGE OF USE OF PLAYING FIELD TO CAR PARK		
DYFFRYN ARDUDWY		
REF.	DRAWING	
E.3/18	01 EXISTING SITE PLAN	S — —
1:200 @ A3		
DRAWN	GLA	DATE 04/2018
<b>GERAINT LEWIS ASSOCIATES</b>		
ARCHITECTURAL DESIGNERS, PLANNING CONSULTANTS BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS		
BRYN RHEDYN . LLANELLYD DOLGELLAU . GWYNEDD . LL40 2SU TELEPHONE : 01341 422370		






PROPOSED



AMENDMENTS		
NO	Date	By
ELEVATED CAR BAY SCHEME	6/21	
Do not scale this drawing Site dimensions to be checked This drawing is copyright		
CHANGE OF USE OF PLAYING FIELD TO CAR PARK		
DYFFRYN ARDUDWY		
REF.	DRAWING	A
E.3/18	02 PROPOSED	PP — —
1:100 @ A3		
DRAWN	GLA	DATE 04/2018
<b>GERAINT LEWIS ASSOCIATES</b>		
ARCHITECTURAL DESIGNERS, PLANNING CONSULTANTS BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS		
BRYN RHEDYN . LLANELLYD DOLGELLAU . GWYNEDD . LL40 2SU TELEPHONE : 01341 422370		



AMENDMENTS		
NO	Date	By
ELEVEN CAR PARK SCHEMES	6/21	

Do not scale this drawing  
Site dimensions to be checked  
This drawing is copyright

CHANGE OF USE OF  
PLAYING FIELD TO CAR PARK

DYFFRYN ARDUDWY

REF.	DRAWING	A PP
E.3/18	01 PROPOSED SITE PLAN	

1:200 @ A3

DRAWN GLA DATE 04/2018

**GERAINT LEWIS ASSOCIATES**

ARCHITECTURAL DESIGNERS,  
PLANNING CONSULTANTS  
BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS

BRYN RHEDYN . LLANELLYD  
DOLGELLAU . GWYNEDD . LL40 2SU  
TELEPHONE : 01341 422370

PROPOSED SITE PLAN



<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Cynllunio a Mynediad
<b>DYDDIAD</b>	Medi 8 2021
<b>TEITL</b>	Canllaw Cynllunio Atodol: Telathrebu a Mastiau
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Sion Roberts (Swyddog Cynllunio (Polisi))
<b>PWRPAS</b>	I gymeradwyo drafft Canllaw Cynllunio Atodol (15): Telathrebu a Mastiau, gyda unrhyw newidiadau priodol, a'i fabwysiadu

## 1. CEFNDIR

Mabwysiadodd yr Awdurdod Gynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE) 2016-2031 ar 6 Chwefror 2019. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae CDLI Eryri yn cynnwys polisiâu strategol a pholisiâu datblygu fel sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi polisiâu'r CDLIE. Er mwyn rhoi arweiniad pellach ar y polisiâu newydd a ffurfiwyd drwy gyfrwng yr adolygiad ar ffurf fer, mae cyfres o CCA newydd a diwygiedig yn cael eu paratoi i ddarparu rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar weithredu'r polisiâu sydd wedi'u cynnwys yn y CDLIE. Dylai CCA ehangu a dehongli polisiâu cynllunio ac nid ydynt ynddynt eu hunain, yn ffurfio meysydd polisi newydd.

## 2. PWRPAS

Pwrpas y CCA Telathrebu a Mastiau ydy i;

- Roi arweiniad manwl am y modd y bydd yr Awdurdod Cynllunio yn ymdrin â thelathrebu a datblygiadau mast a allai gael effaith ar dirwedd a chymeriad Eryri.
- Roi arweiniad i gynorthwyo datblygwyr sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio a cheisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw, ac i swyddogion cynllunio ac aelodau Awdurdod y Parc wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 3. SEFYLLFA BRESENNOL

Mae'r nodyn canllaw hwn yn un o gyfres o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n darparu gwybodaeth fanwl bellach ar sut y bydd polisiâu sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE) (2016-2031) yn cael eu defnyddio'n ymarferol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Bwriad y Canllawiau Cynllunio Atodol yw rhoi mwy o fanylion am faterion penodol nag sy'n bosibl neu'n briodol yn CDLIE a bydd y CCA yn ystyriaeth gynllunio berthnasol pan wneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ymwneud a thelathrebu a mastiau.

Aethpwyd â'r CCA drafft i weithgor aelodau Tachwedd 11 2020. Yn dilyn y trafodaethau hynny, awgrymwyd nifer o newidiadau, a diwygiwyd y ddogfen. Yn dilyn hyn fe gyflwynwyd y CCA drafft am gyfnod ymgynghoriad o 6 wythnos, rhwng Mawrth 25 a Mai 6 2021, a mae'r holl sylwadau a gyflwynwyd i'w gweld mewn dogfen ar wahân. Mae'r newidiadau a wnaed i'r ddogfen yn dilyn y cyfnod ymgynghori wedi eu rhestru isod;

- Testun newydd ym mhar 1.12 (symudwyd y testun blaenorol a welwyd yn 1.12 i 1.13). Mae'r testun newydd yn cynghori ymgeiswyr i gynnal trafodaethau cynnar gydag ymgynghorwyr statudol megis CNC ac Adran Briffyrdd.
- Geiriad ychwanegol i bar 1.16 er mwyn nodi nad yw'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnwys y ddolen gwefan allanol a ddarperir.
- Newid pob cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 10 i fod yn Polisi Cynllunio Cymru 11 ym mhennod 2.
- Ym mhennod 2, mae'r "Cod Arferion Gorau ar Ddatblygu Rhwydweithiau Ffonau Symudol ar gyfer Cymru (2021)" wedi'i gynnwys fel dogfen berthnasol i'w hystyried.
- Ym mhennod 2, mae "Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040" wedi'i gynnwys fel dogfen berthnasol i'w hystyried.
- Mae par 2.21 yn cyfeirio'r ymgeisydd/darllenwr i Adran 4 o CCA 13: Aseiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd, sy'n darparu canllawiau cyffredinol ar leoli a dyluniad seilwaith telathrebu, a'r effeithiau posibl y gallai'r ffactorau hyn gael ar Gymeriad Tirwedd lleol.
- Testun ychwanegol i bar 3.2, sydd yn egluro pa fersiwn o Ran 24 y cyfeirir ato.
- Geiriad wedi cael ei ddiwygio/ychwanegu ym mhar 3.12 i egluro bod rhain yn ffactorau sydd yn berthnasol o safbwynt yr Awdurdod.
- Geiriad ychwanegol at ddiwedd par 3.15 er mwyn egluro'r amserlen.
- Ychwanegu geiriad ychwanegol at ddiwedd par 4.7 er mwyn nod y dylid cynnwys Aseiad Tirwedd ac Effaith Gweledol wrth gyflwyno cais cynllunio.
- Testun ychwanegol i bwynt bwled 2 ym mhar 4.9. Mae hyn er mwyn egluro'r hyn sydd ei angen ei ystyried a'i angen o ran yr effeithiau posibl ar olygfeydd allweddol.
- Mae par 4.13 yn cyfeirio'r ymgeisydd/darllenwr at y "Cod Arferion Gorau ar Ddatblygu Rhwydweithiau Ffonau Symudol ar gyfer Cymru (2021)".
- Geiriad ychwanegol at bar 4.26. Roedd y Weinyddiaeth Amddiffyn eisiau cynnwys geiriad ychwanegol er mwyn nod yr hoffent gael eu ymgynghori ynghylch a unrhyw ddatblygiad mast uwch na 50m.

#### **4. CAMAU NESAF**

Yn dilyn unrhyw newidiadau a gytunwyd gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y fersiwn drafft, bydd y CCA Telathrebu a Mastiau yn cael ei fabwysiadu ac fe ystyrir y canllaw'n ffurfiol fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

## **5. ARGYMHELLIAD**

I'r Aelodau gymeradwyo y fersiwn drafft o'r CCA Telathrebu a Mastiau, ac yn dilyn unrhyw newidiadau addas; ei fabwysiadu.

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL:  
TELATHREBU A MASTIAU**

## Pwrpasau a Chyfrifoldebau'r Parc Cenedlaethol

### Deddf yr Amgylchedd 1995

61. *Pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol.*

*Bydd darpariaethau'r Rhan hon o'r Ddeddf hon yn effeithiol at y diben -*

*(a) o warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd a bennir yn yr is-adran ganlynol nesaf; a*

*(b) hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardaloedd hynny*

### Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 10 - Rhagfyr 2018

6.3.6 Mewn Parciau Cenedlaethol, dylai awdurdodau cynllunio roi pwys mawr ar bwrpasau statudol Parciau Cenedlaethol, sef gwarchod a gwella eu harddwch naturiol, bywyd gwylt a'u treftadaeth ddiwylliannol, a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu rhinweddau arbennig. Dylai awdurdodau cynllunio hefyd geisio meithrin lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eu cymunedau lleol.

6.3.9 Dylid rhoi pwys mawr ar rinweddau arbennig ardaloedd dynodedig wrth baratoi cynlluniau datblygu ac yn y broses rheoli datblygu. Rhaid asesu cynigion mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE [Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol] yn ofalus i wneud yn siŵr bod eu heffeithiau ar y nodweddion hynny sydd i fod i gael eu gwarchod gan y dynodiad, yn dderbyniol. Rhaid i gyfraniad datblygiad at reoli'r ardal ddynodedig yn gynaliadwy gael ei ystyried.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

*Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â gwella Lles Cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n golygu bod yn rhaid i gorff cyhoeddus diffiniedig weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith:*

- *Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang*
- *Cymru lewyrchus*
- *Cymru gydnerth*
- *Cymru iachach*
- *Cymru fwy cyfartal*
- *Cymru o gymunedau cydlynol*
- *Cymru o ddiwylliant bywiog ac Iaith Gymraeg lewyrchus*



## **Cynnwys**

1. Cyflwyniad .....	5
2. Polisiâu a Chyd-destun Cenedlaethol a Lleol.....	10
3. Y Broses Gynllunio .....	<del>16</del> 15
4. Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol.....	<del>20</del> 19
Atodiad 1 .....	<del>27</del> 26

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r nodyn canllaw hwn yn un o gyfres o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n darparu gwybodaeth fanwl bellach ar sut y bydd polisiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE) (2016-2031) yn cael eu defnyddio'n ymarferol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bwriad y Canllawiau Cynllunio Atodol yw rhoi mwy o fanylion am faterion penodol nag sy'n bosibl neu'n briodol yn CDLIE.

### Pwrpas

- 1.2 Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol hwn yw:
- Rhoi arweiniad manwl am y modd y bydd yr Awdurdod Cynllunio yn ymdrin â thelathrebu a datblygiadau mast a allai gael effaith ar dirwedd a chymeriad Eryri.
  - Rhoi arweiniad i gynorthwyo datblygwyr sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio a cheisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw, ac i swyddogion cynllunio ac aelodau Awdurdod y Parc wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## Statws

- 1.3 Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaeth gynllunio berthnasol pan wneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.
- 1.4 Cynhyrchwyd y CCA hwn i gefnogi'r polisiau yn y CDLIE.
- 1.5 Yn unol ag arfer da, anogir ymgeiswyr i drafod ceisiadau gyda swyddogion, ymlaen llaw, er mwyn penderfynu pa fath o asesiadau y mae angen eu paratoi. Mae mwy o fanylion am hyn wedi'i gynnwys ar y dudalen ganlynol.
- 1.6 Y polisiau mwyaf perthnasol yn yr CDLIE yw:

- **Polisi Datblygu 26: Telathrebu (26)**
- **Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol (1)**
- **Polisi Datblygu 2: Datblygiad a'r Dirwedd (2)**
- **Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygu Cynaliadwy (A)**
- **Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol (D)**

- 1.7 Y dogfennau ychwanegol sy'n berthnasol i'r CCA hwn yw:

- **CCA 7: Tirweddau a Morluniau Eryri**
- **CCA 13: Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd a Gallu**

## Cyngor cyn cyflwyno cais

- 1.8 Cyn cyflwyno cais llawn, efallai y bydd ymgeiswyr a datblygwyr am gysylltu â'r Gwasanaeth Cynllunio yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a gweithio gyda swyddogion yn ystod y cam cyn cyflwyno cais, pan rhoddir cyngor cynllunio cyn cyflwyno cynllun ffurfiol a / neu gais am gymeradwyaeth ymlaen llaw.
- 1.9 Mae llawer o fanteision i gael cyngor cyn gwneud cais gyda datblygiadau telathrebu, ac mae'n hawdd mynd i'r afael â materion micro-leoli cyn cyflwyno cais yn ffurfiol.
- 1.10 Er mwyn cyrchu'r gwasanaeth, bydd angen i ymgeiswyr gwblhau a chyflwyno ffurflen ymholiad (o wefan yr Awdurdod) cyn gwneud cais a darparu gwybodaeth fel:
- Disgrifiad o'r cynnig a pha fath o ganiatâd cynllunio y ceisir amdano
  - Cynllun lleoliad ac unrhyw luniadau / cynlluniau neu fanylion braslunio eraill sydd gennych ar gael
  - Y defnydd cyfredol o'r safle neu'r adeilad
  - Ffotograffau o'r safle neu'r adeilad a'r ardal gyfagos
  - Asesiad o safleoedd amgen posibl - a fydd yn rhoi cyfleoedd i swyddogion asesu'r dirwedd a'r effaith weledol ar wahanol safleoedd
  - Asesiadau rhagarweiniol tirwedd ac effeithiau gweledol gan ystyried y CCA perthnasol
  - Unrhyw wybodaeth berthnasol arall (e.e. arolygon ecolegol)
- 1.11 Mae tâl yn daladwy am y gwasanaeth cyn cyflwyno cais. Mae'r ffi yn amrywio yn dibynnu ar fath a graddfa'r datblygiad arfaethedig. Mae'r ddolen isod yn mynd at y dudalen berthnasol ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri sy'n rhoi manylion y gwasanaeth hwn - <https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-permission/pre-application-enquiry>
- 1.12 Fe gynghorir ymgeiswyr i hefyd gynnal trafodaethau cynnar gydag ymgynghorwyr statudol megis CNC ac Adrannau Priffyrdd. Gall y trafodaethau hyn rhwng ymgeiswyr ac ymgynghorwyr statudol gynorthwyo gyda'r cyflwyniad cyn-gais. Ar ôl cyflwyno'r ffurflen hon, bydd yr ymgeisydd yn derbyn ymateb ysgrifenedig gan yr Awdurdod (fel arfer o fewn 21 diwrnod).
- 1.13 Ar ôl cyflwyno'r ffurflen hon, bydd yr ymgeisydd yn derbyn ymateb ysgrifenedig gan yr Awdurdod (fel arfer o fewn 21 diwrnod).

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

## Cyd-destun Cyffredinol

[4.131.14](#) Mae pwysau'n ymwneud â seilwaith telathrebu ym Mharc Cenedlaethol Eryri ar gyfer mastiau ffôn symudol newydd a'u hamnewid, oherwydd diffyg signal ffôn symudol a thopograffeg y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn arwain at yr angen am fwy o fastiau i ddarparu signal. Fel y nodwyd yn CCA 13: Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd a Chynhwysedd,

*“Mewn ardaloedd mwy anghysbell, seilwaith telathrebu yw un o'r ychydig ddatblygiadau y mae'n rhaid eu lleoli mewn lle o reidrwydd. Mae'n anochel bod datblygiadau o'r fath yn effeithio ar wylltineb canfyddedig y dirwedd, trwy gyflwyno strwythur agored gan ddyn i ardal sy'n cael ei hystyried yn gymharol naturiol ac yn bell o ddylanwad dynol. Gall hefyd gael effaith ar dirweddau pan fydd cynnydd mewn strwythurau ar hyd coridorau seilwaith sefydledig. Mae hyn yn arwain at fwy o annibendod a datblygiad gweledol yn aml mewn lleoliadau gweladwy iawn. Yn ogystal, gall effeithiau gweledol mastiau gynyddu trwy gyfrwng effaith weledol gronnus, gan fod safleoedd amlwg yn aml yn cynnwys sawl datblygiad sydd wedi'u cynllunio'n wahanol.”*

[4.141.15](#) Mae Rhifyn [40-11](#) - Polisi Cynllunio Cymru yn nodi na ddylai awdurdodau cynllunio gwestiynu'r angen am systemau telathrebu, ac mae'r Awdurdod yn gwbl ymwybodol o'r angen am gyfathrebu modern er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial datblygu cymdeithasol ac economaidd yr ardal. Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod yn cefnogi darparu seilwaith telathrebu os yw cymeriad tirwedd ac amwynder gweledol y parc yn cael eu peryglu'n ddifrifol trwy ddyluniad neu leoliad amhriodol gosodiadau, neu lle mae effaith niweidiol sylweddol ar amwynder y rhai sy'n byw gerllaw. Wrth asesu unrhyw geisiadau cynllunio, bydd yr Awdurdod yn ystyried yn ofalus y dystiolaeth sydd a wnelo'r dirwedd a'r casgliadau a geir yn CCA7 (Tirweddau a Morluniau Eryri) a CCA 13 (Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd a Chynhwysedd). Mae'r CCA hwn yn ceisio tywys ymgeiswyr a datblygwyr ynghylch yr hyn sy'n dderbynol o ran lleoli seilwaith telathrebu yn y Parc Cenedlaethol.

[4.151.16](#) Gellir gweld map sydd yn dangos cwrpas cyfredol rhwydweithiau ffonau symudol (EE, O2, Three a Vodafone UK) drwy ddilyn y ddolen [hon](#)<sup>1</sup>. (saesneg yn unig). *[\(dolen gyswllt i wefan allanol ydy hon ac nid yw'r Awdurdod yn gyfrifol am y wybodaeth a ddarperir\)](#)*

Formatted: Font: Italic

<sup>1</sup> [RootMetrics Coverage Map](https://webcoveragemap.rootmetrics.com/en-GB) (<https://webcoveragemap.rootmetrics.com/en-GB>)

## Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031) Polisi Telathrebu

[4.161.17](#) Mae'r polisi canlynol, o CDLI Eryri, yn ceisio sicrhau bod y manteision cymdeithasol ac economaidd yn sgil gwell seilwaith cyfathrebu yn cael eu bodloni heb effeithio'n negyddol yr ardal o gwmpas.

### Polisi Datblygu 26: Telathrebu (26)

Caniateir datblygiadau telathrebu ar yr amod nad ydynt yn niweidio amwynder gweledol a chymeriad tirwedd yr ardal yn sylweddol nac yn effeithio'n andwyol ar amwynder y bobl sy'n byw yn agos at y safle.

Dylai cynigion felly fodloni'r holl feini prawf canlynol:

- i. Gellir dangos na ellir darparu lefel dderbyniol o wasanaeth trwy:
  - a) ddefnyddio safle sy'n fwy derbyniol yn amgylcheddol naill ai yn y Parc neu'r tu allan iddo,
  - b) rhannu safle, mast, twr neu strwythurau eraill sy'n bodoli eisoes.
- ii. Nid yw effaith gronns y datblygiad ar y cyd â gosodiadau tebyg yn niweidio chymeriad gweledol na chymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol yn sylweddol.
- iii. Disgwylir i'r mast, antenau ac unrhyw strwythurau ategol fod wedi'u cynllunio'n dda ac yn cynrychioli'r opsiwn amgylcheddol ymarferol gorau.
- iv. Mae'r allyriadau amledd radio o orsafoedd a chyfarpar symudol yn cydymffurfio ag egwyddorion rhagofalus y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.
- v. Pan fo risg o ymyrraeth radio sylweddol, gellir dangos y gellir goresgyn hyn trwy fesurau priodol.

Bydd yn ofynnol bod offer ac adeiladau segur neu ddarfodedig yn cael eu symud a bod y safle'n cael ei adfer cyn pen chwe mis ar ôl i'r cyfleuster roi'r gorau i weithredu.

## 2. Polisiâu a Chyd-destun Cenedlaethol a Lleol

### Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn ~~40~~11

- 2.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad ~~40~~11 yn nodi polisiâu defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn sefydlu eu hamcanion ar gyfer gwarchod a gwella treftadaeth naturiol, tirweddau gyda dynodiadau statudol, cynefinoedd cynhenid, coed a choetiroedd. Mae PCC ~~40~~11 yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio ddarparu ar gyfer cadwraeth a, lle bo hynny'n briodol, gwella tirweddau lleol. Gall hyn gynnwys polisiâu ar gyfer nodweddion tirwedd, hynodrwydd a rhinweddau o arwyddocâd lleol a dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA). Yng ngoleuni hyn, trafodir ac amlygir canllawiau cynllunio atodol mabwysiedig APCE o 'Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd a Chynhwysedd' a 'Tirweddau a Morluniau Eryri' yn y ddogfen hon.
- 2.2 Mae PCC ~~40~~11 hefyd yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio nodi pa hynodrwydd, nodweddion neu rinweddau sydd angen amddiffyniad ychwanegol, ac egluro sut y bydd y polisi neu'r dynodiad yn cyflawni'r amddiffyniad hwn. Nodir hyn yn CCA 7 y 'Tirweddau a Morluniau Eryri'.
- 2.3 Dylid defnyddio LANDMAP<sup>2</sup> ac unrhyw asesiadau cymeriad tirwedd cysylltiedig (gan gynnwys y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru) i lywio polisiâu tirwedd lleol a CCA. Gellir cyrchu LANDMAP trwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 2.4 O ran Telathrebu Symudol (*sy'n ymgorffori technoleg a gwasanaethau ffôn a band eang a symudol*), Mae PCC ~~40~~11 yn nodi y dylai'r system gynllunio helpu i gefnogi seilwaith telathrebu lle mae ei angen, gan ystyried statws tir ac adeiladau gwarchodedig yn ogystal ag ystyriaethau amwynder i amddiffyn yr hyn sy'n cael ei werthfawrogi fwyaf mewn cymunedau a'r amgylchedd. Mae PCC ~~40~~11 yn nodi mai effaith y seilwaith telathrebu symudol newydd fydd yr un mwyaf mewn tirweddau sensitif ac ardaloedd dynodedig eraill ac y dylid eu cynllunio'n ofalus. Fodd bynnag, yr ardaloedd hyn, sydd yn wledig eu natur yn bennaf, sy'n cael eu heffeithio'n economaidd ac yn gymdeithasol gan signal / wasanaeth cyfyngedig. Felly mae cynllunio rhagweithiol ond ystyriol yn hanfodol i sicrhau'r gwasanaeth gorau wrth gynnal cymeriad yr ardaloedd arbennig hyn.

<sup>2</sup> Adnodd tirwedd yn ymwneud â Chymru gyfan yw LANDMAP, lle y caiff nodweddion a phriodweddau'r dirwedd, a'r dylanwadau arni, eu cofnodi a'u gwerthuso. Dyma offeryn sy'n helpu gyda phenderfyniadau cynaliadwy a chynllunio adnoddau naturiol ar sawl lefel, o'r lleol i'r cenedlaethol. Gellir darganfod yr adnodd yma ar wefan CNC.

2.5 Mae PCC ~~10-11~~ yn nodi, yr anogir gryf y dylid rhannu mastiau a safleoedd lle mae hynny'n cynrychioli'r datrysiad amgylcheddol gorau posibl mewn achos penodol, er enghraifft mewn ardaloedd tirwedd dynodedig neu sensitif. Bydd dyluniad mastiau yn ystyriaeth bwysig lle mae'n debygol mai rhannu fydd y dull a ffeirir a dylid dilyn ymdrechion i guddio offer lle bo angen. Lle bynnag y bo modd, dylid defnyddio adeiladau presennol a strwythurau eraill i leoli offer newydd a dylai datblygwyr ymgysylltu ag awdurdodau cynllunio a'r gymuned i nodi lleoliadau posibl a allai ddod â buddion ychwanegol. Dylai lleoli ganiatáu ar gyfer y gwasanaeth / signal gorau posibl tra, cyn belled ag sy'n ymarferol, lleihau'r effaith ar amwynder ac ymddangosiad allanol adeilad. Dylid defnyddio amodau hefyd i sicrhau bod offer nad oes eu hangen mwyach neu sy'n cael eu defnyddio yn cael eu symud yn brydlon.

### Y Cod Arferion Gorau ar Ddatblygu Rhwydweithiau Ffonau Symudol ar gyfer Cymru

2.6 Pwrpas y ddogfen yma ydy:

- cefnogi'r broses o roi'r seilwaith ffonau symudol ar waith, a rhoi arweiniad yngylch y gofynion cymhleth sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhwydwaith
- amlinellu fframwaith ymgysylltu ar gyfer gweithredwyr rhwydweithiau symudol ac awdurdodau cynllunio, wrth iddynt ystyried ceisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw a/neu ganiatâd cynllunio llawn i wella rhwydweithiau symudol
- ceisio osgoi elfennau sy'n achosi gwrthdaro, a lleihau unrhyw effeithiau niweidiol ymddangosiadol gymaint â phosibl wrth ddarparu offer telathrebu
- a chefnogi dull gweithredu mwy cydweithredol wrth gyflwyno a gwella cysylltedd digidol ledled Cymru

2.52.7 Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi cyngor i ymgeiswyr ar bynciau fel lleoli, dylunio, cydymffurfiaeth ICNIRP ac ystyriaethau lleoli rhwydwaith.

### **Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 19: Telathrebu (2002)**

2.8 Dylai'r Awdurdod Cynllunio lleol ystyried y Nodyn Cyngor Technegol hwn wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gall hefyd fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol a byddai'n cael ei ystyried mewn unrhyw geisiadau cynllunio ac apeliadau galw i mewn. Cyflwynir manylion pellach o NCT 19 yn adran 4 o'r CCA hwn ar dudalen 19.

Formatted: Font: Bold

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt, Bold

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

Formatted: Normal, No bullets or numbering

Formatted: Font: Bold

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt, Bold

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

Formatted: Font: Not Bold

Formatted: Indent: Left: 2.84 cm, No bullets or numbering

Formatted: Font: Not Bold



## Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

2.9 Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw fframwaith datblygu cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio

2.10 O ran ei 'Gynllun Gweithredu Economaidd', mae'r ddogfen yn cefnogi datblygu seilwaith sy'n cynnwys cyfathrebu digidol, ac yn nodi y gall cyfathrebu digidol gael effaith gadarnhaol ar lesiant. Mae'r ddogfen yn pwysleisio y bydd seilwaith telathrebu digidol, o fewn tirluniau sensitif ac ardaloedd dynodedig arall, yn cael eu lleoli'n ofalus er mwyn lleihau yr effaith weledol

2.62.11 Mae Polisi 13 – 'Cefnogi Cyfathrebu Digidol' o fewn y ddogfen yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunioo ymgysylltu â darparwyr seilwaith digidol er mwyn nodi anghenion eu hardal yn y dyfodol ac amlinellu polisiau mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol er mwyn helpu i gyflawni hyn.

Formatted: Font: Bold

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt

Formatted: Normal, Indent: Left: 0.3 cm, No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 1.57 cm, No bullets or numbering

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

## Dogfennau Cenedlaethol Eraill

2.72.12 Mae'r dogfennau cenedlaethol pwysig eraill, sy'n berthnasol i ddatblygiadau telathrebu, yw dogfennau fel 'Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP)' a 'Datblygu rhwydwaith ffonau symudol: cod ymarfer'. Gellir gweld y dogfennau hyn, ac eraill, ar wefan Llywodraeth Cymru drwy ddilyn y ddolen hon; <https://llyw.cymru/polisi-a-chanllawiau-cynllunio-telathrebu>

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

2.82.13 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i wella lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

2.92.14 Gall cynllunio a datblygu gofalus o fastiau telathrebu gyfrannu'n sylweddol at y 7 nod Llesiant a nodwyd yn y Ddeddf. Os gweithredir y '5 ffordd o weithio' a nodwyd yn y Ddeddf wrth ddatblygu mastiau (o'r broses lleoli, dylunio, ymgynghori hyd at gyflwyno cais cynllunio), yna ystyrir y dylai hyn arwain at ddatblygiad mwy ystyriol a wedi'i ddylunio yn well.

## CCA 7: Tirweddau a Morluniau Eryri (2014)

[2.102.15](#) Mae'r CCA hwn a fabwysiadwyd gan APCE yn nodi nodweddion allweddol Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT) ac Ardaloedd Cymeriad Morluniau (ACM) ac yn nodi gwybodaeth ar sut i reoli newid ynddynt. Er bod bron pob un o'r tirweddau a'r morluniau yn Eryri o ansawdd rhagorol, a adlewyrchir yn ei ddynodiad fel Parc Cenedlaethol, mae angen diffinio ardaloedd cymeriad tirweddau a morluniau a gwerthfawrogi rhinweddau nodweddiadol unigol yn ogystal â dylanwadau a allai arwain at newidiadau mewn cymeriad. Prif bwrpas y canllaw yw;

- Diffinio'r ffiniau ac enwi Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT) ac Ardaloedd Cymeriad Morluniau (ACM) ym Mharc Cenedlaethol Eryri
- Nodi eu nodweddion allweddol a'u priodoleddau gwerthfawr
- Nodi grymoedd dros newid sy'n debygol o ddylanwadu ar newidiadau yn y dirwedd - ar gyfer yr ACTau unigol a'r ACMau a'r Parc Cenedlaethol yn fwy cyffredinol - ni chaiff mastiau symudol / telathrebu eu nodi fel grym ar gyfer newid yn gyffredinol yn y ddogfen hon.
- Nodi strategaethau tirwedd ar gyfer pob ACT, gan nodi sut y dylid eu rheoli a'u gwarchod yn y dyfodol
- Nodi'r ffactorau sensitif ar gyfer pob ACM

[2.112.16](#) Gan fod y ddogfen yn nodi nodweddion allweddol Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn y Parc Cenedlaethol a sut y gallant gael eu heffeithio'n andwyol gan rai datblygiadau (er enghraifft datblygiadau mastiau symudol), mae'n ddogfen hanfodol i'w hystyried ochr yn ochr ag eraill, wrth asesu cynigion cynllunio telathrebu.

[2.122.17](#) Yn yr un modd â'r CCA Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd, mae CCA Tirwedd a Morluniau Eryri yn ystyriaeth gynllunio berthnasol pan wneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

## CCA 13: Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd

2.132.18 Nod yr asesiad hwn o sensitifrwydd a chynhwysedd tirwedd yw darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, gan helpu i amddiffyn tirweddau sensitif a nodedig rhag datblygiad amhriodol ac annog dull cadarnhaol o ddatblygu yn y lleoliad cywir ac ar raddfa briodol. Mae'r astudiaeth, fel y mae'n berthnasol i Eryri, yn ystyried y tri math datblygu canlynol yn benodol; datblygiadau ynni adnewyddadwy, mastiau symudol (seilwaith trosglwyddo telathrebu) a meysydd carafanau / cabanau statig ac estyniadau, o fewn yr ardaloedd cymeriad tirwedd a nodwyd yn CCA 7.

2.19 Gall fod yn anodd asesu derbynioldeb unrhyw ddatblygiad yn y dirwedd wledig mewn modd rhesymol. Er y cydnabyddir yn gyffredinol y dylid gwarchod y tirweddau mwyaf gwerthfawr, mae rhai ardaloedd lle gellir darparu ar gyfer datblygiad, er mewn ffordd reoledig i leihau effeithiau andwyol. Fodd bynnag, mae'r CCA hwn yn darparu canllawiau strategol eang ar faterion lleoliad ac effaith a lleoli nodiadau canllaw i leihau effeithiau andwyol ar gyfer pob ardal cymeriad. Dylai datblygwyr ymgyswrtu â phob ardal cymeriad a dadansoddi'n feiriadol, mewn dull mwy rhesymol, effaith eu cynnig yn erbyn y meini prawf sensitifrwydd a nodwyd.


2.142.20 *Gan fod yn rhaid lleoli mastiau telathrebu / symudol yn ôl yr angen, mae'n bwysig eu bod yn cael eu lleoli a'u hasesu'n ofalus er mwyn osgoi'r ardaloedd mwyaf sensitif. Mae'r ddelwedd isod yn dangos sensitifrwydd cyffredinol Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Eryri i ddatblygiadau mastiau symudol. (Gwnaethpwyd yr astudiaeth hon ar lefel ACT gyffredinol ac efallai y bydd gan ardaloedd o fewn ACT fod yn fwy sensitifrwydd neu'n llai sensitif o gymharu â'r ACT yn ei chyfanrwydd).*

2.152.21 *Mae Adran 4 o'r CCA (gweler yma) yn darparu canllawiau cyffredinol ar leoli a dyluniad seilwaith telathrebu, a'r effeithiau posibl y gallai'r ffactorau hyn gael ar Gymeriad Tirwedd Lleol. Gan fod yn rhaid lleoli mastiau telathrebu / symudol yn ôl yr angen, mae'n bwysig eu bod yn cael eu lleoli a'u hasesu'n ofalus er mwyn osgoi'r ardaloedd mwyaf sensitif. Mae'r ddelwedd isod yn dangos sensitifrwydd cyffredinol Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Eryri i ddatblygiadau mastiau symudol. (Gwnaethpwyd yr astudiaeth hon ar lefel ACT gyffredinol ac efallai y bydd gan ardaloedd o fewn ACT fod yn fwy sensitifrwydd neu'n llai sensitif o gymharu â'r ACT yn ei chyfanrwydd).*

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt

Formatted: Indent: Left: 1.27 cm, No bullets or numbering

Figur 1



### 3. Y Broses Gynllunio

#### Mastiau - Cymeradwyaeth Flaenorol (20m neu lai)

- 3.1 Mae datblygiadau telathrebu mwy yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol naill ai am gymeradwyaeth ymlaen llaw neu i gyflwyno cais cynllunio llawn.
- 3.2 Mae'r broses gymeradwyo ymlaen llaw wedi'i deddfu o dan Ran 24 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ) (Diwygiad) (Cymru) 2019 ([digwyddodd y prif newidiadau yn 2019, gyda mân welliannau wedi'u hategu ym mis Rhagfyr 2020](#)) (GDCC) a gellir ei gweld trwy ddilyn y [ddolen](#).
- 3.3 Mae'r rhan fwyaf o fathau o ddatblygiad telathrebu a ganiateir o dan Ran 24 o'r GDCG yn ddarostyngedig i weithdrefn cymeradwyo ymlaen llaw 56 diwrnod. Mae hyn oherwydd y ffaith bod y datblygiad wedi'i leoli mewn Parc Cenedlaethol.
- 3.4 Mae'r broses hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol am ei benderfyniad ynghylch a fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw i leoliad ac ymddangosiad y datblygiad arfaethedig.
- 3.5 Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol 56 diwrnod, gan ddechrau gyda'r dyddiad y mae'n derbyn y cais, i wneud a rhoi gwybod ynghylch ei benderfyniad ynghylch a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y lleoliad a'r ymddangosiad ac i hysbysu'r ymgeisydd o'i benderfyniad i roi neu gwrthod cymeradwyaeth o'r fath. Nid oes pŵer i ymestyn y cyfnod o 56 diwrnod.
- 3.6 Os na wneir penderfyniad, neu os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn methu â hysbysu'r datblygwr o'i benderfyniad o fewn y 56 diwrnod, bernir bod caniatâd wedi'i roi.
- 3.7 Mae Rhan 24 o'r GDCG yn mynnu bod yn rhaid i'r cais i'r awdurdod cynllunio lleol gynnwys:
  - Cyfeiriad cyswllt y datblygwr, a chyfeiriad e-bost y datblygwr os oes gan y datblygwr un
  - Disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig
  - Cynllun yn nodi ei leoliad arfaethedig
  - Tystiolaeth bod perchennog neu denant amaethyddol y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef wedi'i hysbysu o'r datblygiad arfaethedig

- Pan fo'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys gosod mast o fewn 3 cilometr i berimedr erodrom (gweler tudalennau 22 a 23), tystiolaeth bod y CAA, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn neu'r gweithredwr erodrom (fel sy'n briodol) wedi bod wedi ei hysbysu o'r cynnig
- Y ffi briodol
- Ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys adeiladu neu osod un antena neu fwy (oni bai eu bod i gyd yn antena celloedd bach), rhaid i'r cais hefyd ddod gyda datganiad y bydd yr offer a'r gosodiad, pan fydd wedi'i adeiladu neu ei osod, yn gweithredu'n unol â'r Canllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Ymbelydredd Heb ïoneiddio (ICNIRP).

3.8 Ystyrir ei bod yn arfer da bod y canlynol hefyd yn cael eu cyflwyno:

- Tystiolaeth bod y defnydd posibl o fast, adeilad neu strwythur presennol wedi'i ystyried cyn cyflwyno cais i godi mast newydd
- Gwybodaeth am bwrpas ac angen y datblygiad penodol
- Pan fo'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys gosod, newid neu amnewid gorsaf ffôn symudol ar ysgol neu goleg neu'n agos ato, tystiolaeth yr ymgynghorwyd â chorff perthnasol yr ysgol neu'r coleg ynghylch y cynnig
- Datganiad yn nodi uchder yr antena arfaethedig, amlder a nodweddion modiweiddio a manylion allbwn pŵer.

3.9 Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddechrau'r ymgynghoriadau a'r hysbysiad / rhybudd fel y'u nodir yn y rheoliadau cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn y cais er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried y cais yng ngoleuni unrhyw sylwadau a dderbynnir.

3.10 Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol ystyried sylwadau a dderbynnir wrth benderfynu a ddylid rhoi neu wrthod cymeradwyaeth ar gyfer datblygiad arfaethedig. Efallai yr hoffai'r Awdurdod drafod gyda'r datblygwyr addasiadau posibl i'r datblygiad arfaethedig i liniaru'r pryderon a godwyd gan ymgynghoreion penodol.

3.11 Mae'r ffactorau i'w hystyried ynglŷn ag ymddangosiad y mast a'r cyfarpar ategol yn cynnwys deunyddiau, lliw a dyluniad. Gall defnyddio deunyddiau a lliwio priodol ganiatáu i fast ymdoddi'n haws i'w amgylchoedd. Ymhlith y nodweddion dylunio y gellir eu hystyried mae dimensiynau; siâp cyffredinol; ac a yw'r gwaith adeiladu yn gadarn neu'n ffurfio fframwaith agored. Dylai'r Awdurdod hefyd ystyried gyda'r datblygwr a oes dyluniadau amgen ar gael a allai fod yn fwy addas i'r amgylchedd lleol.

3.12 Gall ffactorau sy'n ymwneud â lleoli [o safbwynt yr Awdurdod](#), gynnwys:

- Uchder y safle mewn perthynas â'r tir o'i amgylch

- Bodolaeth nodweddion topograffig a llystyfiant naturiol
- Yr effaith ar y nenlinell neu'r gorwel
- Y safle pan welir ef o unrhyw ochr, gan gynnwys o'r tu allan i ardal yr awdurdod ei hun
- Y safle mewn perthynas ag ardaloedd sydd wedi'u dynodi am eu gwerth golygfaol neu gadwraeth
- Y safle mewn perthynas â mastiau, strwythurau neu adeiladau presennol, gan gynnwys adeiladau o gymeriad hanesyddol neu draddodiadol
- Y safle mewn perthynas ag eiddo preswyl
- Unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill

3.13 Wrth ystyried lleoliad ac ymddangosiad mast ynghyd â'i ddatblygiad cysylltiedig, bydd cwmpas tirlunio a sgrinio i leihau effaith y datblygiad ar ei amgylchoedd yn ystyriaeth bwysig.

#### **Penderfynu Nad oes angen Cymeradwyaeth Flaenorol**

3.14 Os yw Awdurdod y Parc yn penderfynu nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, caiff y datblygiad fynd yn ei flaen (a) pan fydd y gweithredwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig o benderfyniad o'r fath neu (b) ar ôl i'r cyfnod o 56 diwrnod ddod i ben. Dylai'r awdurdod roi rhybudd o unrhyw benderfyniad cyn gynted â phosibl, yn hytrach na chaniatáu i'r cyfnod o 56 diwrnod ddod i ben heb hysbysu'r ymgeisydd. Rhaid i'r datblygiad gael ei wneud yn unol â'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais am benderfyniad neu fel y cytunwyd yn ysgrifenedig fel arall gan yr awdurdod.

#### **Penderfynu bod angen Cymeradwyaeth Flaenorol**

3.15 Os yw'r awdurdod yn penderfynu bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer lleoli a / neu ymddangosiad y datblygiad, dylai roi rhybudd ysgrifenedig prydlon i'r gweithredwr / datblygwr o'r penderfyniad hwnnw [o fewn yr amserlen statudol](#).

#### **Mân Ddatblygiad Telathrebu**

3.16 Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai datblygiadau a gweithrediadau telathrebu ar raddfa fach, er enghraifft erialau teledu, dysglau lloeren bach ar eiddo preswyl. O ran dysglau lloeren mewn rhai achosion efallai y bydd angen caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig. Am wybodaeth bellach gweler;

- Cynllunio a chanllaw ar gyfer deiliaid tai ([dolen](#))
- Porth Cynllunio Cymru - Aelwyd Rhyngweithiol ([dolen](#))

### **Band Eang Llinell Sefydlog**

3.17 Mewn perthynas â darparu band eang llinell sefydlog, gall datblygiadau o'r fath ddibynnu ar hawliau datblygu a ganiateir ar yr amod y cedwir at amodau perthnasol. Yn y Parc Cenedlaethol mae'r rhain fel a ganlyn;

- Rhaid rhoi mis o rybudd ysgrifenedig i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Awdurdod Cynllunio Lleol
- Rhaid i'r rhybudd nodi bwriad y datblygwyr i osod cyfarpar cyfathrebu electronig, disgrifio'r cyfarpar a nodi'r lleoliad lle maent yn bwriadu ei osod
- Rhaid i liw cabinet fod yn; wyrdd, du (ac eithrio du di-sglein), neu liw sydd â chymeradwyaeth ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r datblygiad
- Rhaid i unrhyw bodyn telegraff fod â'r un ymddangosiad a rhaid iddo gael ei wneud o'r un deunydd â'r polyn telegraff agosaf sydd gan ganiatâd cynllunio, oni bai bod ymddangosiad neu ddeunydd arall wedi'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau ar y datblygiad.



#### 4. Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol

- 4.1 Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ystyried unrhyw gynnig datblygu yn unol â'r CDLIE (2016-2031) yn ogystal â'i ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol a drafodwyd uchod.
- 4.2 Polisi Datblygu 26: Dangosir telathrebu ar dudalen 9, ac mae'n nodi y dylai unrhyw gynnig a gyflwynir ddangos na ellir darparu lefel dderbyniol o wasanaeth trwy;
- Y defnydd o safle sy'n fwy amgylcheddol dderbyniol naill ai yn y Parc neu'r tu allan iddo (dylid cyflwyno tystiolaeth bod safleoedd eraill wedi cael eu ystyried, a pham nad ydynt yn addas ar gyfer datblygiad e.e. y byddai'r safleoedd arfaethedig eraill yn cael mwy o effaith, neu y byddai yna broblemau/materion technegol ac ati)
  - Rannu safle, mast, twr neu strwythurau eraill sy'n bodoli eisoes
  - Rhannu sianel danddaearol bresennol neu gynlluniedig gyda chyfleustodau arall
  - Defnyddio mast/antenna trosglwyddo
- 4.3 Mae'r polisi hefyd yn nodi na ddylai'r datblygiad arfaethedig gael effaith gronnus ar y cyd â gosodiadau tebyg ac ni ddylai niweidio cymeriad gweledol na chymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol.
- 4.4 Mae Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol yn nodi y bydd adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a 'Rhinweddau Arbennig' Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiad amhriodol. Ni ddylai cynigion effeithio'n andwyol ar adnoddau bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol gan gynnwys safleoedd dynodedig o lefel ryngwladol hyd at lefel leol, yn ogystal ag adnoddau bioamrywiaeth ehangach e.e. cynefinoedd a rhywogaethau y tu allan i safleoedd dynodedig. Bydd y Parc Cenedlaethol yn cynghori datblygwyr bod yn rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw ofyniad statudol ar gyfer amddiffyn rhywogaethau fel y cyfeirir atynt ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.
- 4.5 Mae'r camau cychwynnol wrth gynllunio unrhyw ddatblygiad yn cynnwys nodi math / graddfa briodol o ddatblygiad ac ystyried a dewis safle addas er mwyn lleihau effeithiau tirweddol a gweledol i'r eithaf. Er enghraifft, gallai dewis safle priodol helpu i liniaru effaith weledol datblygiad hyd yn oed cyn y cam dylunio manwl. Fel man cychwyn, dylid ymgynghori ag asesiad sensitifrwydd yr ACT perthnasol ar gyfer pob datblygiad posib er mwyn dod i ddeall llinell sylfaen cymeriad tirwedd a sensitifrwydd allweddol i'r math penodol hwnnw o ddatblygiad.

4.6 Bydd datblygiadau sydd wedi'u lleoli o fewn neu'n agos at y canlynol yn cael eu hasesu'n feirniadol a bydd angen darparu mesurau lliniaru yn ogystal ag asesiadau o safleoedd amgen eraill posibl yn unol â'r polisi. Mae'r rhain yn cynnwys;

- Ardaloedd o werth tirwedd uchel sy'n sensitif i newid (*Cymerir arweiniad gan CCA 7, CCA 13 a LANDMAP*)
- Ardaloedd o sensitifrwydd gweledol uchel (*Cymerir arweiniad o'r Asesiad Sensitifrwydd a Chapsaiti Tirwedd - nodwch fod hon yn astudiaeth strategol ac nid yn rhagnodol ar lefel safle unigol*)
- Dynodiadau naturiol gwarchoddedig lle byddai effaith adnabyddadwy
- Tirweddau Hanesyddol, Henebion Rhestredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd, Ymgeiswyr am statws Safleoedd Treftadaeth y Byd ac Adeiladau Rhestredig
- Ardaloedd craidd Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri - yn dibynnu ar gynigion goleuo.

4.7 Mae CCA 7 a CCA 13 yn ystyriaethau cynllunio perthnasol pan wneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Cynghorir datblygwyr i asesu'r effaith ar y dirwedd ac effaith weledol unrhyw gynnig ar gymeriad ACTau ac ystyried mesurau lliniaru os oes effeithiau andwyol. Dylid cynnwys cofnod o'r dadansoddiad hwn mewn gwybodaeth atodol sy'n cyd-fynd â cheisiadau cynllunio. [Dylid cynnwys Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol gyda'r cais cynllunio a gyflwynwyd.](#)

4.8 Gall y canllawiau lleoli a dylunio penodol a gynhyrchir ar gyfer pob ACT hefyd gynorthwyo wrth ddewis safle addas a math / graddfa datblygiad.

4.9 Mae'n bwysig nodi bod amrywiadau lleol yn aml yng nghymeriad a sensitifrwydd pob ACT, felly dylid cynnal dadansoddiad safle-benodol i nodi unrhyw faterion tirwedd a / neu weledol posibl mewn unrhyw leoliad penodol. Fel rhan o hyn, bydd yn bwysig ystyried yr effaith bosibl ar y canlynol;

- Cymeriad tirwedd (yn enwedig nodweddion allweddol)
- Golygfeydd allweddol ([mae hyn yn cynnwys lluniau anodedig o olygfeydd allweddol, delweddau ffotogyfosodiad a mapiau PGD \(parthau gweledol damcaniaethol\)](#))
- Rhinweddau arbennig (dynodiadau tirwedd / anghysbell / llonyddwch ac ati)

4.10 Mae effeithiau ar gymeriad y dirwedd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r canlynol;

- Tirffurf - p'un a yw'r tirffurf yn gymhleth neu'n syml a sut mae natur y datblygiad arfaethedig yn gysylltiedig â hyn neu'n gwrthdaro ag ef.

Gall datblygiad ddominyddu tirffurfiau bach neu gymhleth os na chânt eu lleoli'n ofalus

- Cwmpasu Tir - sut mae'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â phatrwm cwmpas y tir neu'n gwrthdaro â nhw a pha nodweddion sensitif a allai fod mewn perygl
- Dylanwadau o waith dyn - a yw'r datblygiad arfaethedig yn cyflwyno dylanwad dyn annodweddiadol i dirwedd

4.11 Bydd angen i gynigion hefyd ystyried unrhyw effaith y gallai'r datblygiad ei chael ar ACTau cyfagos.

### Rhannu mast a safle

4.12 Mae NCT 19 yn nodi y gall awdurdodau cynllunio lleol ddisgwyl yn rhesymol i geisiadau am fastiau newydd ddangos tystiolaeth eu bod wedi archwilio'r posibilrwydd o godi antenâu ar adeilad, mast neu strwythur arall fel peilon trydan. Mae amodau mewn trwyddedau gweithredwyr cod yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau archwilio'r posibilrwydd o rannu safle radio sy'n bodoli eisoes. Dylai'r dystiolaeth hon gyd-fynd ag unrhyw gais a wneir i'r awdurdod cynllunio lleol, p'un ai am gymeradwyaeth ymlaen llaw neu ganiatâd cynllunio.

4.124.13 Mae canllawiau mewn perthynas â rhannu safle hefyd wedi'u cynnwys yn y Cod Arferion Gora ar Ddatblygu Rhwydweithiau Ffonau Symudol ar gyfer Cymru.

4.134.14 Os na ystyrir bod y dystiolaeth ynghylch ystyried safleoedd amgen o'r fath yn foddhaol, gall yr awdurdod cynllunio gyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r awdurdod roi rhesymau clir pam ei fod yn ystyried bod y dystiolaeth ger ei fron yn anfoddhaol. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol yn y lle cyntaf yw bodloni ei hun a yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn hyn o beth yn foddhaol a chadw mewn cof y cyfyngiadau technegol ar ddatblygu rhwydwaith wrth ddo i unrhyw benderfyniad.

4.144.15 Wrth ystyried safleoedd amgen, bydd yr awdurdod yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar yr amgylchedd lleol yn sgil datblygiad ar y safleoedd hynny. Bydd hyn yn arbennig o bwysig lle byddai safle arall yn cynnwys ailddatblygu mast presennol i'w ddefnyddio ar y cyd. Mewn rhai amgylchiadau gallai defnyddio mast sy'n bodoli eisoes olygu bod angen cynyddu uchder neu gapasiti strwythurol, ac felly gweledd y mast hwnnw. Yn dibynnu ar nodweddion y lleoliad, gallai rhannu safle yn hytrach na rhannu mast fod yn fwy priodol. Er enghraifft, gall ail osodiad sydd wedi'i leoli ochr yn ochr â'r prif osodiad neu y tu ôl iddo ddarparu datrysiad mwy buddiol yn nhermau amgylcheddol a chynllunio.

Formatted: Indent: Left: 1.4 cm, No bullets or numbering

[4.154.16](#) Bydd APCE yn ystyried yr holl gyngor a gynhwysir yn y NCT 19 gan gynnwys yr effaith gronrus ar yr amgylchedd o antenâu ychwanegol sy'n rhannu mast neu fastiau sy'n rhannu safle neu opsiwn mwy ffafriol posibl o leoli safle newydd.

## Dyluniad

[4.164.17](#) Disgwylir i fastiau, antenau ac unrhyw strwythurau ategol fod wedi'u cynllunio'n dda ac yn cynrychioli'r opsiwn amgylcheddol ymarferol gorau. Bydd yr Awdurdod yn ystyried addasrwydd y dyluniad arfaethedig, gan gynnwys datblygiad a thirlunio ategol. Bydd amodau'r safle, cyfyngiadau technegol, nodweddion tirwedd a gofynion capasiti yn effeithio ar opsiynau dylunio. Bydd ei uchder, ei ddatblygiad ategol a'i gwmpas ar gyfer tirlunio a sgrinio hefyd yn ystyriaethau pwysig.

**Formatted:** Outline numbered + Level: 2 + Numbering  
Style: 1, 2, 3, ... + Start at: 17 + Alignment: Left +  
Aligned at: 0.3 cm + Indent at: 1.57 cm

[4.174.18](#) Dylai'r ymgeisydd / datblygwyr ddefnyddio dyluniad a chuddliw cydymdeimladol i leihau unrhyw effaith y gallai'r datblygiad ei chael ar yr amgylchedd cyfagos. Anogir y diwydiant telathrebu i barhau i ddatblygu atebion dylunio arloesol. Mae hyn nid yn unig ar gyfer y mastiau a'r antenâu eu hunain, ond o ran y deunyddiau a'r lliw hefyd. Mae hyn hefyd yn cynnwys mastiau sydd wedi'u cynllunio i edrych fel dodrefn stryd, ac ailddatblygu neu adfer eiddo presennol i ymgorffori offer telathrebu. Efallai yr hoffai awdurdodau drafod gyda gweithredwyr, gwahanol opsiynau dylunio mewn cysylltiad â chynnig datblygu penodol. Dylid cofio efallai na fydd rhai dyluniadau yn addas i'w rhannu yn y dyfodol. Pan gytunir bod safle'n addas ar gyfer rhannu mast yn y dyfodol, gallai fod yn briodol gosod mast sydd wedi'i gynllunio'n benodol i hwyluso ei ailddatblygiad ar gyfer ei rannu.

**Formatted:** Outline numbered + Level: 2 + Numbering  
Style: 1, 2, 3, ... + Start at: 17 + Alignment: Left +  
Aligned at: 0.3 cm + Indent at: 1.57 cm

[4.184.19](#) Anogir ymgeiswyr i ddarparu gwahanol enghreifftiau o atebion dylunio i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac fe'u hanogir hefyd i archwilio dulliau amgen posibl, er enghraifft rhannu safleoedd a mastiau (fel y soniwyd eisoes), lleoliad a dyluniadau amgen ar gyfer y cyfarpar. Wrth ystyried dyluniad datblygiad unigol, yn enwedig datblygiadau mast, dylid ystyried sgrinio a phlannu yn ofalus. Dylai ffiniau'r safle gael eu tynnu'n ddigon mawr i ddarparu ar gyfer y tirlunio angenrheidiol.

**Formatted:** Outline numbered + Level: 2 + Numbering  
Style: 1, 2, 3, ... + Start at: 17 + Alignment: Left +  
Aligned at: 0.3 cm + Indent at: 1.57 cm

[4.194.20](#) Dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn deall y cyfyngiadau y mae'r gweithredwr yn eu hwynebu, p'un ai oherwydd natur y dechnoleg neu'r gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwasanaeth. Dylai gweithredwyr fod yn barod i egluro technoleg a chyfyngiadau cyfreithiol, ac i drafod ymarferoldeb safleoedd amgen. Dylai trafodaethau cyn cyflwyno cais helpu i nodi a datrys materion yn gynnar, a hwyluso'r broses ymgeisio ffurfiol.

**Formatted:** Outline numbered + Level: 2 + Numbering  
Style: 1, 2, 3, ... + Start at: 17 + Alignment: Left +  
Aligned at: 0.3 cm + Indent at: 1.57 cm

[4.204.21](#) Gofynnir i ymgeiswyr/ddatblygwyr ddangos a chyfiawnhau eu bod yn defnyddio'r dyluniad gorau posibl yn seiliedig ar linellau canllaw dylunio cydnabyddedig.

**Formatted:** Outline numbered + Level: 2 + Numbering  
Style: 1, 2, 3, ... + Start at: 17 + Alignment: Left +  
NP5/65/L302D	26/08/20	Wern y Pistyll, Bontddu. LL40 2UP	Trosi ysgubor a'i ymestun yn annedd fforddiadwy gan gynnwys gosod tanc septig, caniatad ol-weithredol ar fyfer trac mynediad a gwaith peirianyddol i greu llain caled/ man parcio o gwmpas yr adeilad, gosod carafan statig dros dro a adeiladu clwydfan ystlumod.
NP5/69/392B	09/12/21	Llwyn Du, Llwyngwriil. LL37 2JP	Codi annedd deulawr.
NP5/75/73D	21/10/19	Ynys, Cwrt, Pennal.	Trosi ac addasu'r 'BCF Hut' presennol i greu llety gwyliau a gosod tanc septig (Ail-gyflwyniad)

#### Disgwyl Cynlluniau Diwygiedig

NP5/73/424A	28/09/20	Cilderi, Tan y Bwlch. Maentwrog. LL41 3YU	Codi garej dwbl, caniatâd ôl-weithredol am estynad i'r cwrt, cadw'r terasiad cerrig a gwaith peirianeg.
-------------	----------	---	---

## Disgwyl Manylion gan yr Asiant / Ymgeisydd

NP5/58/629	29/01/20	Tir rhwng Plas Meini & Swyn y Mor, Dyffryn Ardudwy. LL42 2BH	Cais amlinell i godi pedwar ty deulawr ar wahân (2 marchnad agored a 2 ffoddiadwy) gyda garejis mewnol a chreu mynedfa gerbydau i'r A496
------------	----------	--	--

### Aros am ymateb ymgynghoriad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar wybodaeth bellach a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

NP5/71/39Z	03/03/21	Gwersyll Yr Urdd, Glanllyn, Llanuwchllyn. LL23 7ST	Codi adeilad deulawr i ddarparu llety cysgu a hyfforddi. Codi dau adeilad unllawr ategol ar gyfer storio bagiau a Gwaith cynnal a chadw. Newidiadau i adeiladau Cwt Lerpwl a Chwt Hwyllo. Gosod decin wedi ei godi ar gyfer hyfforddiant mewn perthynas â Chwt Lerpwl. Gwaith allanol cysylltiol i ddarparu parcio ac ardaloedd storio allanol wedi ei ffurfio a system grid athraidd
------------	----------	--	---

### Angen Ail-Ymgynghori

NP5/69/16J	27/04/21	Tir Ger Castell Mawr, Llanegryn. LL36 9NH.	Newidiadau i gynlluniau a gymeradwywyd o dan NP5/69/16C a NP5/69/16E gan gynnwys lleoliad a dyluniad ffan a fentiau, cynnwys y gwregys tail, tyllau pop ar yr ochr ddeheuol yn unig, diwygiadau i ddrysau a ffenestri ar dalcen y gorllewin, trac mynediad, plannu coed a gwrychoedd, llain galed ychwanegol a llai o amgylch yr adeilad ac ail-leoli biniau bwyd anifeiliaid i'r drychiad gogleddol a chynnydd mewn uchder o 0.45m.
------------	----------	--	--

### Disgwyl am Fanylion Technegol y Boeler Biomass

NP5/57/1065H	12/03/21	Bryn y Gwin Farm, Dolgellau. LL40 1TF	Cais ol-weithredol i godi storfa goed, tanc olew a boeler biomass yn cynnwys sylfeini concriad a llwybr troed
--------------	----------	---------------------------------------	---

### Aros am Gyflwyniad o Asesiad o Effaith y Datblygiad Arfaethedig ar Osodiad yr Heneb

NP5/69/15H	26/04/21	Brynllyn, Rhoslefain. LL36 9NH	Codi adeilad amaethyddol
------------	----------	--------------------------------	--------------------------

Nifer o geisiadau ar y rhestr = 14

Nifer o geisiadau ar y rhestr Pwyllgor 30 Mehefin = 19

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (HAWL I WYBODAETH) 1985****RHESTR O BAPURAU CEFNDIR**

Ystyrir y dogfennau canlynol fel papurau cefndir ar gyfer adroddiadau ar geisiadau ac eitemau gorfodaeth a wnaed dan Ddeddfau Cynllunio 1990.

Ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw Dystysgrif.

Cynlluniau a dogfennau eraill i gefnogi'r cynigiad.

Sylwadau cyrff cyhoeddus a hysbyswyd neu yr ymgynghorwyd a hwy, gan gynnwys swyddogion eraill yr Awdurdod, Cynghorau Cymuned, Cynghorau Unedol, Ymgwymerwyr Statudol, Adrannau neu asiantau'r Llywodraeth (ac eithrio cyngor cyfreithiol, a llythyrau yn gofyn am gyngor cyfreithiol).

Llythyrau a dderbyniwyd o ffynonellau eraill, yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd. (Ac eithrio gohebiaeth gydag hysbyswydd gwarchoddedig).

Lluniau o'r safle ac o ddatblygiadau tebyg mewn mannau eraill.

Deddfau Cynllunio 1990 ac unrhyw deddfwriaeth ychwanegol.

Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991.

Deddf yr Amgylchedd, 1995.

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, 2004.

Deddf Iawnderau Dynol, 1998.

Cyngor cyhoeddedig y Llywodraeth (lle cyfeirir ato mewn adroddiadau ac eitemu unigol).

Y Cynllun Fframwaith ynghyd ac unrhyw gynigion i'w ddiwygio a gyhoeddwyd.

Cynlluniau Lleol, ynghyd ac unrhyw gynigion i'w diwygio a gyhoeddwyd (lle cyfeirir atynt mewn adroddiadau ar eitemau unigol).

Ffeiliau ar geisiadau cynllunio blaenorol ar safleoedd y cynigion presennol.

Unrhyw ddogfen arall y cyfeirir ati mewn adroddiadau ar eitemau unigol.

**LOCAL GOVERNMENT (ACCESS TO INFORMATION) ACT 1985****LIST OF BACKGROUND PAPERS**

The following documents are considered background papers for reports on applications and enforcement items made under the Planning Acts 1990.

Application form, including any Certificates.

Plans and other documents in support of the proposal.

Comments of public bodies notified or consulted, including other Officers of the Authority, Community Councils, Unitary Councils, Statutory Undertakers, Government Departments or agencies, (excluding legal advice and requests for legal advice).

Letters received from other sources, including members of the public. (Excluding correspondence with a protected informant).

Photographs of the site or of similar developments elsewhere.

The Planning Acts 1990 and subsidiary legislation.

The Planning and Compensation Act, 1991.

The Environment Act, 1995.

The Planning and Compulsory Purchase Act, 2004.

The Human Rights Act, 1998.

Published Government advice (where referred to in reports on individual items).

The Structure Plan together with any published proposals for amendments.

Local Plans, together with any published proposals for amendments (where referred to in reports on individual items).

Files for previous planning applications on sites of current proposals.

Any other document which may be referred to in reports on individual items.





**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD  
8 MEDI 2021**

**PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD 08 MEDI 2021**

**PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG**

**Ceisiadau wedi ei caniatáu**

	<b>Rhif y Cais</b>	<b>Bwriad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiad Penderfyniad</b>	<b>Swyddog Achos</b>
1.	NP3/15/75F	Diwygiad Ansylweddol (Ail-leoli drws allanol) ar yr estyniad wedi ei ganiatau o dan gyfeirnod cynllunio NP3/15/75C dyddiedig 31/07/2017	Ynys Ettws, Nant Peris. LL55 4UL	16/06/21	Mr Richard Thomas
2.	NP3/21/46E	Estyniad i adeilad amaethyddol	2 Tai'r Cae, Carneddi, Bethesda. LL57 3UF	03/08/21	Mr Richard Thomas
3.	NP3/21/T76B	Estyniad unllawr ar yr ochr	Llwyn Penddu Isaf, Llanllechid. LL57 3LL	21/06/21	Mr Richard Thomas
4.	NP3/22/98	Dymchwel adeilad allanol unllawr a codi estyniad deulawr ar yr ochr	Blaen y Garth, Nantlle. LL54 6BS	23/06/21	Mr Richard Thomas
5.	NP4/11/112B	Cais ôl-weithredol i ailwampio ac estyniad i'r garej a chreu ystafell ardd	Ty'n y Merddyn, Pentre Du, Betws y Coed. LL24 0BP	16/06/21	Mr Richard Thomas
6.	NP4/19/98A	Gwaith peiriannyddol i greu ysgol farchogaeth 40m x 20m i geffylau cael ymarfer	Clynnog, Llechwedd. LL32 8DZ	19/07/21	Mr Richard Thomas
7.	NP4/29/44E	Adlinio llifddor cynllun trydan dŵr sydd wedi ei gymeradwyo	Afon y Foel, Hafod y Rhedwydd, Cwm Penmachno. LL24 0RF	29/06/21	Mr Richard Thomas
8.	NP4/32/191B	Codi porth car ar ochr yr eiddo	Llys Bach, Crafnant Road, Trefriw. LL27 0JZ	06/07/21	Mr Richard Thomas
9.	NP4/32/220E	Dymchwel ports presennol ac adeiladu ports newydd ynghyd a dau ffenestr grom ar y drychiad blaen	Tu Hwnt i'r Afon, Dolgarrog. LL32 8JX	19/07/21	Mr Richard Thomas

10.	NP4/32/284A	Estyniad, newidiadau a trosi adeilad allanol gwledig yn uned gwyliau, addasu'r fynedfa cerbydau, creu lle parcio a gosod uned trin carthion	Maes Mawr, Crafnant Road, Trefriw. LL27 0JZ	29/06/21	Mr Richard Thomas
11.	NP4/32/338A	Estyniad unllawr ar yr ochr	Llwyn Celyn, Trefriw. LL27 0JX	03/08/21	Mr Richard Thomas
12.	NP4/32/369	Gosod inswleiddio allanol gyda gorffeniad cladin pren (Cedrwydden) ar y drychiad cefn.	Ty Newydd, Llanrhychwyn, Trefriw. LL27 0YJ	06/07/21	Mr Richard Thomas
13.	NP5/50/589A	Ymestyn y patio presennol ar y blaen.	Ael-y-Don, Gwelfor Road, Aberdyfi. LL35 0NY	20/07/21	Mrs. Iona Roberts
14.	NP5/50/L262A	Newid defnydd o gymysgedd A1/A3 (Siop Anrhegion a Chaffi) i A3 (Bar), ffenestri newydd a dau ddrws allanol newydd	8 Sea View Terrace, Aberdyfi. LL35 0EF	08/06/21	Mrs. Iona Roberts
15.	NP5/50/LB179C	Caniatad Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol a chloddio llawr daear i gynnwys llawr newydd a'i insiwleiddo gyda sistem gwres oddi tanddo, atal tamprwydd i'r waliau lefel daear ar wal gefn, traen gwastraff newydd a siamber carthffos mewnol, ail leoli'r cyflenwad nwy i'r chwith o'r lle tan, gosod unedau cegin a gwyntyllwr mecanyddol drwy wal flaen, tynnu'r gawod presennol newidiadau i'r pared ar y llawr cyntaf a chreu ardal gawod newydd ar ymyl y grisiau, gyda holl fesuriadau diogelwch tan yn cynnwys 4 o ddrysau tan ar y ddau lawr uchaf, ail weiro trydan, atgyweirio a newid y chwech ffenestr codi traddodiadol drychiad blaen lle bo angen a ffenestri coed union yr un patrwm ar rhai presennol	Isfryn, 8 New Street, Aberdyfi. LL35 0EH	13/07/21	Mr. Arwel LI Thomas

16.	NP5/50/T482G	Tynnu simdde a fflw echdynu	Hafod, 13a Glandyfi Terrace, Aberdyfi. LL35 0EB	10/06/21	Mrs. Iona Roberts
17.	NP5/52/E387B	Ymgynghoriad o dan Adran 37 or Ddeddf Drydan 1989 i osod llinell drydan uwchben	Abergwynant, Penmaenpool.	29/07/21	Mrs. Iona Roberts
18.	NP5/53/182A	Gosod pwynt gwefru cerbydau trydan, piler bwydo a gwaith cysylltiedig.	Maes parcio ger Y Grŵn, Y Bala.	13/07/21	Mrs. Sara Thomas
19.	NP5/53/521A	Estyniad unllawr ar flaen yr eiddo.	Llygad y Llyn, 6 Maes Treflyn, Bala. LL23 7YZ	12/07/21	Mrs. Sara Thomas
20.	NP5/53/580A	Rhyddhau Amod 4 (Cyflwyno Cynllun Cadwraeth Rhywogaethau ar gyfer ystumod) o Ganiatad Cynllunio NP5/53/580 dyddiedig 25/05/2021	Llyn Tegid, Bala.	28/06/21	Mrs. Sara Thomas
21.	NP5/53/581	Adeiladu estyniad deulawr yn y cefn	32 Bro Eryl, Bala. LL23 7AS	28/07/21	Mrs. Sara Thomas
22.	NP5/53/LB212	Caniatad Adeilad Rhestredig am yr holl waith trwsio yn dilyn difrod tan sylweddol i'r adeilad gan gyflwyno ddefnyddio deunyddiau gyda cerrig concriid cynnal y strwythur dur sydd i gynnal y llawr cyntaf B1, B2=203x102UB, B3=203x133UB a'u gwarchodydd rhag tan. Gwaith strwythurol i gynnal y to, drwy gyflwyno tulathau paredau pren 50x100C16 a paneli OSB 9mm SW1 i gynnal newid llethr to naill ochr a pared cyffelyb SW2 i gynnal tulathau'r to 2x100x250C24 ochr Dwyreiniol a 2x75x150C24 ochr Gorllewinol i'r pared (SW2). Cosod trawst pren 200x100C16 wedi angori a M12 er cynnal to'r baril uwch strwythur ffram ffabrigedig y gromen bont faril un darn 80x80x4SHS i'r ochrau a 80x40x4RHS aelod gwaelod i'w gysylltu a trawstiau'r llawr gyda'r aelod uwchben cyffelyb yn cynnal coed y to 50x150C16 ar to gorffeniad plwm	Isllyn, 5 Arenig Street, Bala. LL23 7AH	17/06/21	Mr. Arwel LI Thomas

23.	NP5/53/LB53M	Caniatad Adeilad Rhestredig i newid manion wyneb y siop gan dynnu'r teils presennol naill ochr a'r rhan ganol gan orchuddio a chladin pren ar ei hyd yn ganolog gyda philasterau naill ben. Addurno'r drws a ffenestr y siop, sgroliau ac oddi amgylch peiriant twll yn wal a phaent llwyd gydag wyneb ffasgia a chornis newydd gorffeniad paent llwyd ac iddo arwydd a logo siop newydd	Spar, 39 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AF	15/07/21	Mr. Arwel LI Thomas
24.	NP5/54/98D	Codi adeilad amaethyddol a tho dros storfa tail sych (Ailgyflwyniad)	Esgairgawr, Rhydymain. LL40 2BH	21/06/21	Mrs. Sara Thomas
25.	NP5/57/104B	Codi ystafell haul ar yr edrychiad blaen	1 Nant y Gader, Dolgellau. LL40 1LB	10/06/21	Mrs. Iona Roberts
26.	NP5/57/885J	Gosod 2 pod gwersylla fel llety gwyliau, ynghyd a manau parcio a thirlunio cysylltiedig.	Cefn Naw Clawdd, Dolgellau. LL40 2SG	30/06/21	Mrs. Iona Roberts
27.	NP5/58/119D	Amnewid cladin cerrig-mân gyda rendr lliw	Ty Lafant, Dyffryn Ardudwy. LL44 2BL	29/06/21	Mr Aled Lloyd
28.	NP5/58/38E	Newid defnydd o ran o garej i gegin ac ystafell frechwast sy'n gysylltiedig â defnyddio Tyddyn Du fel busnes Gwely a Brechwast, ynghyd â newidiadau allanol	The Old Farmhouse, Tyddyn Du, Dyffryn Ardudwy. LL44 2DW	14/07/21	Mr Aled Lloyd
29.	NP5/58/44E	Cais ôl-weithredol i leoli tanc LPG gas yn yr ardd ffrynt	Bryn Afon, 12 Glan Ysgethin, Talybont. LL43 2BB	22/06/21	Mrs. Alys Tatum
30.	NP5/58/592A	Newid defnydd gwesty yn uned wyliau hunanarlwyo i ddarparu ar gyfer 18 o breswylwyr.	Ael y Bryn, Dyffryn Ardudwy. LL44 2BE	29/06/21	Mr Aled Lloyd
31.	NP5/58/609C	Gosod gathiau mynediad trydan a ffens ar y wal bresennol.	Crafnant, Dyffryn Ardudwy. LL44 2EH	30/06/21	Mr Aled Lloyd
32.	NP5/58/631A	Cynyddu uchder y wal gefn trwy ychwanegu ffens i 1.8 metr o uchder	Min-y-Wern, Dyffryn Ardudwy. LL44 2RX	30/06/21	Mr Aled Lloyd
33.	NP5/59/792A	Estyniad i'r cwrtill preswyl	Tir ger 3 Saron Houses, Ffestiniog. LL41 4LY	09/06/21	Mr Aled Lloyd

34.	NP5/61/642	Codi estyniadau mewnlenni ar y blaen a'r cefn, ail-gladio rhanol, gosod dormer newydd a ffenestri to, adeilad gardd a newidiadau i'r teras	Tri Deg Tri, Old Llanfair Road, Harlech. LL46 2SS	11/06/21	Mr Aled Lloyd
35.	NP5/61/646	Estyniad unllawr ar yr ochr	Nantmor, 33 Ty Canol, Harlech. LL46 2NZ	01/07/21	Mr Aled Lloyd
36.	NP5/62/425	Estyniad deulawr yn y cefn yn cynnwys 2 ffenestr dormer a gosod 2 ddormer ar yr estyniad ochr	Tyddyn Sian, Llanbedr. LL45 2LG	08/07/21	Mr Aled Lloyd
37.	NP5/62/60G	Ail-leoli'r tŷ sydd wedi cael caniatâd ynghyd a newidiadau i'r dyluniad	Cyplau, Llanbedr. LL45 2ND	14/07/21	Mr Aled Lloyd
38.	NP5/64/LB90A	Caniatad Adeilad Rhestredig i warchod y ffermdy drwy osod strwythur to dur llenni rhychiog dros dro, cau agoriadau drysau a ffenestri ar holl waith perthnasol i ddiogelu'r adeilad rhag dirywiad pellach	Fron Newydd, Llanegryn. LL36 9LN	17/06/21	Mr. Arwel LI Thomas
39.	NP5/64/LB91A	Caniatad Adeilad Rhestredig i warchod yr adeiladau amaethyddol i'r Gorllewin o'r ffermdy drwy osod strwythur to dur llenni rhychiog dros dro, cau agoriadau drysau a ffenestri ar holl waith perthnasol i ddiogelu'r adeilad rhag dirywiad pellach	Adeilad Amaethyddol, Fron Newydd, Llanegryn. LL36 9LN	17/06/21	Mr. Arwel LI Thomas
40.	NP5/65/272A	Adeiladu estyniad cefn a balconi	Llety Wyn, Bontddu. LL40 2UE	14/07/21	Mrs. Sara Thomas
41.	NP5/66/266C	Codi estyniad deulawr yn y cefn	Rhiwgoch, Harlech. LL46 2TN	29/06/21	Mr Aled Lloyd
42.	NP5/67/AD59A	Caniatâd arddangos hysbyseb am arwydd coffa llechi	Tir ger y maes parcio, Abergynolwyn. LL36 9UU	08/07/21	Mrs. Iona Roberts
43.	NP5/69/113J	Rhyddhau Amod 5 (Cynllun parcio), 6 (Darpariaeth o wasanaethau i'r cytiau bugail), 7 (Cynllun tirlunio) & 9 (Cynllun Gwelliant bioamrywiaeth) o Ganiatad Cynllunio NP5/69/113H dyddiedig 02/12/2020	Llanfendigaid Hall, Rhoslefain. LL36 9LS	14/07/21	Mrs. Iona Roberts

44.	NP5/69/392B	Codi annedd deulawr	Llwyn Du, Llwyngwrl. LL37 2JP	16/06/21	Mrs. Iona Roberts
45.	NP5/69/410	Adeiladu gweithdy/storfa	Pentre Bach, Llwyngwrl. LL37 2JU	08/06/21	Mrs. Iona Roberts
46.	NP5/70/LB102G	Caniatad Adeilad Rhestredig i osod drws gwydr tu gefn i'r drws beudy ac ail-sefydlu agoriad presenol yn yr ystafell gawod	Rhyd Fudr, Llanuwchllyn. LL23 7DD	28/06/21	Mrs. Sara Thomas
47.	NP5/71/473B	Trosi a newid defnydd cyn siop i ffurfio estyniad i'r annedd cyffiniol ynghyd ac adeiladu estyniad cefn i gysylltu ac adeilad allanol presenol (Ail-gyflwyniad)	Bronant Stores / Garn, Llanuwchllyn. LL23 7TP	21/07/21	Mrs. Sara Thomas
48.	NP5/71/78B	Adeiladu estyniad ochr i'w ddefnyddio fel anecs	Cefn yr Odyn, Llanuwchllyn. LL23 7TL	26/07/21	Mrs. Sara Thomas
49.	NP5/74/333J	Gosod cwt caffi prydau parod yn lle y caffi presenol	Canolfan Garddio Camlan, Dinas Mawddwy. SY20 9LN	15/07/21	Mrs. Sara Thomas
50.	NP5/74/478A	Codi mast telathrebu 12.5m o uchder ynghyd ac offer a compownd cysylltiedig	Tir yn Fferm Coed Cae, Llanymawddwy. SY20 9AQ	28/07/21	Mrs. Iona Roberts
51.	NP5/74/486A	Adeiladu trac mynediad a pont mewn perthynas a rheolaeth coedwigaeth i gynnwys cynaeafu (ailgyflwyniad)	Coedtir Nant yr Onog, Dinas Mawddwy.	08/07/21	Mrs. Sara Thomas
52.	NP5/74/94E	Adeiladu estyniad ochr unllawr i annedd heb ei gwblhau eto	Maes Tirion, Dinas Mawddwy. SY20 9LL	14/07/21	Mrs. Sara Thomas
53.	NP5/75/156H	Codi dau adeilad amaethyddol	Gwerniago, Pennal.	15/07/21	Mrs. Iona Roberts
54.	NP5/77/27G	Estyniad llawr cyntaf uwchben yr arddangosle ceir i greu lle byw	R.J. Williams, Y Garej, Talsarnau. LL47 6UB	29/07/21	Mr Aled Lloyd

55.	NP5/77/LB59J	Caniatad Adeilad Rhestredig i dynny lle tan y 70'au yn yr ystafell fwyta ag ail osod lle tan copi o gymeriad y cyfnod 1760'au yn lle ar holl waith perthnasol o fewn y lle tan gan orchuddio'r lle tan cerrig y 70'au yn y dderbynfa drwy ail plastro'r wal gyfan a calch naturiol gan osod llosgwr boncyffion coed ar yr aelwyd, tynnu par o ddrysau cwpwrdd boncyffion coed sydd i'r chwith, silfoedd i'w cadw'n agored	Glyn Cywarch, Talsarnau. LL47 6TE	17/06/21	Mr. Arwel Ll Thomas
56.	NP5/79/356A	Newid defnydd anecs i ddarparu ar gyfer busnes tyllino chwaraeon	Hafod y Bryn, Tywyn. LL36 9HN	08/06/21	Mrs. Iona Roberts
57.	NP5/71/LU481	Gosod carafan statig sengl ar y tir i'w ddefnyddio fel anecs preswyl i'r prif dy (Deildre Isaf) a defnydd o'r tir cysylltiedig fel cwrtil domestig estynedig.	Y tir wedi'i ymylu mewn coch ar y cynllun ynghlwm Deildre Isaf, Llanuwchllyn. LL23 7TB	20/07/21	Mrs. Sara Thomas

### Ceisiadau wedi ei gwrthod

	Rhif y Cais	Bwriad	Lleoliad	Rheswm Gwrthod	Swyddog Achos
1.	NP3/16/L3F	Trosi, newid defnydd, dymchwel penty ac estyniad o storfa i greu anecs i ymwelwyr	Tai Newyddion, Nant Ffrancon. LL57 3DQ	05/07/21 Oherwydd bod y cynnig hwn yn dangos nodweddion dylunio anghydnaws, anghydweiddol ac yn cynnig deunyddiau amhriodol, anhraddodiadol, byddai'r cais hwn, pe bai'n cael ei gymeradwyo, yn gwrthdaro â pholisïau EDLP1, 6, 7 a 9 sydd â'r nod o warchod egwyddorion ffurf draddodiadol, dylunio a defnyddio deunyddiau yn y Parc Cenedlaethol.  Oherwydd i'r cais hwn fethu â dangos y byddai gwaredu elifiant budr o'r gwaith trin pecyn arfaethedig yn effeithiol yn y lleoliad hwn, nid yw'r cais hwn yn darparu digon o wybodaeth y gellir gwneud penderfyniad gwybodus llawn amdani.	Mr Richard Thomas



2.	NP4/26/97K	Cais ôl-weithredol i osod dau bagoda a chabinet trydan	Maes Madog, Capel Garmon. LL26 0RG	29/06/21 Oherwydd bod y gazebos / canopiau yn cyflwyno ymyrraeth ddiangen yn y dirwedd wledig, mae'r cais hwn yn groes i bolisi 29 a CCA 8 a 14 yr ELDP.	Mr Richard Thomas
3.	NP5/58/227C	Dymchwel adeilad allanol cerrig ac adeiladu 1 tŷ fforddiadwy a 2 dŷ marchnad agored gyda mynedfa cerbydau cysylltiol	Tir ger Tan-y-Foel, Dyffryn Ardudwy. LL44 2DQ	08/06/21 Mae'r cynnig ar gyfer codi 1 annedd fforddiadwy a 2 o anheddau ar wahân ar y farchnad agored a mynediad cysylltiedig ar gyfer cerbydau, yn gwrthdaro'n uniongyrchol â Pholisi Datblygu 30 a Pholisi Strategol G: Tai. O dan y polisi hwn, mae rhan o safle'r cynnig wedi'i ddyrannu ar gyfer 5 uned breswyl (50% ar y farchnad agored a 50% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol). Mae'r polisi hwn hefyd yn ceisio dwysedd o 30 annedd yr hectar ar gyfer datblygiad preswyl ac mae'n amlwg nad yw'r cynnig hwn yn ei gyflawni. Ar y sail hon mae'r cynnig yn groes i Bolisi Strategol G: Tai Cynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiedig (2016-2031).  At hynny, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth gymhellol i gefnogi llai o ddwysedd. Felly, mae'r cynnig yn mynd yn groes i gyngor a gynhwysir yn adran 3.5 o Ganllawiau Cynllunio Atodol 4: Tai Fforddiadwy Cynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiedig (2016-2031).  Oherwydd rheswm, mae'r cynnig hwn yn methu â chwrdd â meini prawf ii Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy ar Safleoedd Eithrio yn yr ystyr bod safle addas o fewn y ffin ddatblygu ar gyfer tai fforddiadwy, sef yr ardal gyfagos a ddyrannwyd ar gyfer tai fforddiadwy, ynghyd ag un safle arall yn y pentref sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer 10 cartref fforddiadwy.	Mr Aled Lloyd

4.	NP5/58/569A	Codi estyniad unllawr yn y cefn	Bwlch Cae, Dyffryn Ardudwy. LL44 2HX	<p>02/07/21</p> <p>Ymddengys nad yw'r adeilad sy'n destun y cais yn annedd sefydledig fel y'i diffinnir yn Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1987. Oherwydd bod y cais hwn yn cynnig estyniad tŷ newydd ar adeilad yng nghefn gwlad agored mae'r cais hwn yn gwrthdaro ag Eryri Local Polisiâu C, G a 30 y Cynllun Datblygu.</p> <p>At hynny, mae'r cynnig yn methu â chydymffurfio â Pholisi Datblygu 15: Estyniadau. Mae'r polisi hwn yn cefnogi ymestyn anheddau, gan ei fod yn cael ei ystyried yn fath gynaliadwy o ddatblygiad, gan ei fod yn ymestyn oes tai hŷn. Gan ei bod yn ymddangos nad yw'r adeilad y cynigir ei ymestyn yn dŷ annedd, nid oes rheswm y gellir ei gyfiawnhau dros estyniad tŷ.</p>	Mr Aled Lloyd
5.	NP5/65/246A	Newid defnydd tir i ymestyn cwrtill domestig ac adeiladu garej a mynedfa gerbyd newydd	Pen y Dalar, Llanelltyd. LL40 2HB	<p>05/07/21</p> <p>Yn absenoldeb mesurau lliniaru i ddigolledu'r colled o ardal eang (oddeutu 25m) o wrych/clawdd aeddfed sydd wedi ei nodi fel cynefin uchaf ei flaenoriaeth o dan Rhan 7 o'r Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016, ystyrir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gymeriad bioamrywiaeth Eryri ac o ganlyniad yn colli nodwedd tirwedd pwysig. Felly ystyrir y byddai'r cynnig yn gwrthdaru â Polisi Strategol D a Polisi Datblygu 1 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri sy'n ceisio gwarchod a gwella amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol.</p>	Mrs. Sara Thomas

				<p>Mae gwybodaeth annigonol wedi ei gyflwyno ynglyn a'r dyluniad, edrychiad a'r defnydd o ddeunyddiau (yn enwedig o'r wal gynnal arfaethedig a lefelau y fynedfa a'r trac newydd) i alluogi gwneud penderfyniad gwybodus llawn. Felly ystyrir for y cynnig yn gwrthdaro â Polisi Datblygu 1 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri.</p> <p>Nid oes gwelliannau bioamrywiaeth wedi ei gynnwys sy'n ofynol o dan Polisi Strategol D o Gynllun Datblygu Lleol Eryri a fabwysiadwyd a paragraff 6.4.5 o Bolisi Cynllunio Cymru.</p>	
6.	NP5/65/274F	Adeiladu adeilad amaethyddol	Maes Hyfryd, Llanelltyd. LL40 2HF	<p>07/06/21</p> <p>Oherwydd bod diffyg cyfiawnhad wedi ei ddarparu mewn perthynas a'r angehnion amaethyddol o gael adeilad arfaethedig o'r maint hyn, byddai'r cynnig hwn yn ymyrraeth diwarant a fyddai'n creu nodwedd gormodol ag anghydnavs ac yn niweidiol i rinweddau arbennig y rhan yma o'r Parc Cenedlaethol.</p> <p>Oherwydd fod gwybodaeth annigonol wedi ei ddarparu mewn perthynas a'r gwybodaeth sy'n ofynol gan Awdurdod Prifffyrdd Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniad os byddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar eu asedau neu ar ddiogelwch ffordd.</p> <p>Oherwydd fod gwybodaeth annigonol wedi ei ddarparu i alluogi'r Awdurdod i wneud asesiad o'r tebygrwydd o effaith sylweddol o dan Rheol 63 o'r Rheoliadau Cadwraeth o Gynefinoedd a Rhywogaethau 2017.</p>	Mrs. Sara Thomas

7.	NP5/73/423	Trosi adeilad allanol yn llety gwyliau hunain arlwygo tymor byr	Y Felin Lifio, Tan y Bwlch, Maentwrog. LL41 3YU	<p>08/06/21</p> <p>Ni fyddai'r defnydd arfaethedig fel llety gwyliau yn ran o unrhyw gynllun menter gwlad ac felly yn gwrthdaro â gofynion Polisi Datblygu 9 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 a fabwysiadwyd.</p> <p>O ganlyniad byddai'r cynnig yn ail-adeiladu yn sylweddol yr adeilad gwreiddiol a fyddai'n niweidio ei gymeriad presennol. Felly mae'r cynnig yn gwrthdaro â gofynion Polisi Datblygu 9 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 a fabwysiadwyd.</p> <p>Mae gwybodaeth annigonol wedi ei gyflwyno er mwyn canfod/mynd i'r afael a'r holl faterion ecolegol tebygol sy'n gysylltiedig a'r datblygiad i wneud penderfyniad gwybodus llawn ar y cais hwn. Yn absenoldeb y gwybodaeth hyn, mae'r cynnig yn methu â bodloni Polisi Strategol D o Gynllun Datblygu Lleol Eryri, sy'n ceisio gwarchod safleoedd lleol o bwysigrwydd cadwraeth natur a bioamrywiaeth.</p> <p>Mae gwybodaeth annigonol wedi ei gyflwyno er mwyn mynd i'r afael a'r holl faterion priffyrdd tebygol sy'n gysylltiedig a'r datblygiad i wneud penderfyniad gwybodus llawn ar y cais hwn. Yn absenoldeb y gwybodaeth hyn, mae'r cynnig yn methu â bodloni meini prawf viii Polisi Datblygu 1 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri a fabwysiadwyd, sy'n ceisio sicrhau fod darpariaeth digonol i barcio car a manau troi ar y safle.</p>	Mr Aled Lloyd
----	------------	---	---	---	---------------

8.	NP5/78/207B	Adeiladu sied storio / amaethyddol	Cae Coch, Trawsfynydd. LL41 4UG	<p>15/06/21</p> <p>Oherwydd bod diffyg cyfiawnhad wedi ei ddarparu o'r anghenion am adeilad amaethyddol o'r maint a fwriadir, ynghyd a gosodiad yr adeilad, byddai'r cynnig yn cynrychioli ymyrraeth diwarant, yn edrych yn ormodol ac yn nodwedd anghydnaws a fyddai'n niweidiol i ansawdd arbennig y rhan yma o'r Parc Cenedlaethol. Felly, mae'r cais yn gwrthdaro â Polisi Strategol A, C a Polisi Datblygu 1 a 2 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri.</p> <p>Nid oes mesurau gwelliant bioamrywiaeth wedi eu cynnwys gyda'r cynnig. Felly mae'r cynnig yn gwrthdaro â Polisi Strategol D o Gynllun Datblygu Lleol Eryri a fabwysiadwyd a paragraff 6.4.5 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021).</p>	Mrs. Sara Thomas
----	-------------	------------------------------------	---------------------------------	---	------------------



## Penderfyniad ar yr Apêl

Ymweliad â safle a wnaed ar 24/05/21

gan **P J Davies, BSc (Anrh) MA MRTPI**

**Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru**

Dyddiad: 28/6/21

## Appeal Decision

Site visit made on 24/05/21

by **P J Davies, BSc (Hons) MA MRTPI**

**an Inspector appointed by the Welsh Ministers**

Date: 28/6/21

**Cyf yr apêl: APP/H9504/A/21/3270953**

**Cyfeiriad y safle: Cytiau Cŵn Nantcol, Pentre Gwynfryn, Llanbedr, LL45 2PB**

**Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar yr apêl hon i mi fel yr Arolygydd penodedig.**

- Cyflwynir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Cyflwynir yr apêl gan Mr Christopher Bennett yn erbyn penderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf: NP5/62/63G dyddiedig 24 Awst 2020, trwy hysbysiad dyddiedig 2 Rhagfyr 2020.
- Disgrifir y datblygiad a gynigir fel dymchwel nifer o adeiladau allan presennol a'u disodli ag uned unigol newydd.

### Penderfyniad

1. Caniateir yr apêl a rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer parhau â defnydd sefydledig y safle fel storfa stoc drig trwy ddymchwel adeiladau allan presennol a chodi adeilad newydd sy'n mesur 13.5 x 9 metr yng Nghytiau Cŵn Nantcol, Pentre Gwynfryn, Llanbedr, LL45 2PB yn unol â thelerau'r cais, Cyf.: NP5/62/63G, dyddiedig 24 Awst 2020, yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr atodlen sydd ynghlwm.

### Mater Gweithdrefnol

2. Mae'r ffurflen apêl yn diwygio'r disgrifiad o hwnnw a roddwyd ar y ffurflen gais i 'Barhau â defnydd sefydledig y safle fel storfa stoc drig trwy ddymchwel adeiladau allan presennol a chodi adeilad newydd sy'n mesur 13.5 x 9 metr (cais ailadroddus)'. Dyma'r disgrifiad a ddefnyddiwyd ar yr hysbysiad o benderfyniad hefyd. Rwyf wedi ystyried yr apêl ar y sail hon.

### Y Prif Faterion

3. Mae'r prif faterion fel a ganlyn:
  - i) p'un a yw'r safle'n lleoliad addas ar gyfer y datblygiad o ystyried polisiau cynllunio sy'n ceisio gwarchod cefn gwlad a'r Parc Cenedlaethol,
  - ii) effaith y cynnig ar leoliad adeilad rhestredig, a'r
  - iii) effaith ar ddiogelwch ar y priffyrdd.

## Rhesymau

### Cefn Gwlad / Parc Cenedlaethol

4. Mae Polisi Strategol C (SPC) Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Eryri yn cefnogi datblygiad cyflogaeth a hyfforddiant newydd ar raddfa fach yn unol â Pholisi Datblygu 19 (DP19), sy'n rhestru meini prawf mwy penodol. Er hynny, nid safle cyflogaeth newydd yw safle'r apêl ac mae'r Awdurdod yn derbyn bod y cynnig ar gyfer parhau â'r defnydd sefydledig. Defnyddiwyd y tir yn flaenorol ar gyfer casglu, storio, a llosgi stoc drig a ddefnyddiwyd wedi hynny i fwydo cŵn hela, ac roedd yn ymwneud â gwerthu croen. Mae'r cynnig ar gyfer casglu a storio stoc drig yn unig. Efallai bod rhai gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r ddau weithrediad yn gweithio, ond mae'r egwyddor yr un fath ac ni fyddai unrhyw newid sylfaenol i ddefnydd sefydledig y safle. Nodaf hefyd fod y safle'n wag ac yn mynd â'i ben iddo, ond bod y fynedfa a'r adeiladau'n amlwg iawn ac yn gallu cael eu dychwelyd i ddefnydd yn rhwydd. Felly, ni fyddwn yn ystyried bod y safle wedi'i adael i fynd yn segur. Yn yr amgylchiadau, nid yw Polisiâu SPC a DP19 y CDLI yn berthnasol. Yn yr un modd, yng nghyd-destun ail reswm yr Awdurdod dros wrthod, ni fyddai'r cynnig yn cyflwyno defnydd masnachol newydd i gefn gwlad.
5. O ran y mater hwn, felly, y prif ystyriaethau polisi yw Polisiâu Datblygu (DP) 1 a 2 y CDLI. Nod Polisi DP1 yw gwarchod a gwella nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Ymhlith pethau eraill, caniateir datblygiad dim ond pan fydd natur, lleoliad, safle, uchder, ffurf a graddfa'r datblygiad yn gydnaws â chymeriad y safle a'i lleoliad. Mae Polisi DP2 y CDLI yn ceisio sicrhau bod graddfa a dyluniad datblygiad newydd yn parchu ac yn gwarchod cymeriad a nodweddion y dirwedd a golygfeydd ohoni.
6. Mae'r adeiladau presennol wedi'u trefnu mewn ffordd ad hoc ac anniben. Maen nhw'n edrych fel cymysgedd blêr o adeiladau haen fetel a gwaith blociau. Byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu dymchwel i ddarparu ar gyfer yr adeilad newydd, heblaw am adeilad bach ger y ffin ddeheuol. Felly, byddai'r cynnig yn cyfuno hyd a lled presennol y ffurf adeiledig ac yn gwella golwg y safle. Mae'r apelydd yn dadlau y byddai'r adeilad arfaethedig yn lleihau'r lle llawr gweithredu 16% o gymharu â'r adeiladau sydd i'w dymchwel. Nid yw'r Awdurdod wedi darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol i'r gwrthwyneb. Er y cydnabyddaf y byddai'r adeilad arfaethedig yn dalach ac yn fwy swmpus o ran màs a maint cyffredinol, byddai'n sefyll ychydig yn ôl o'r ffordd ar lwyfandir gwastad presennol yn erbyn cefndir o goed a thopograffeg sy'n codi. Byddai'r ffactorau hyn yn lliniaru unrhyw effaith sy'n deillio o fâs uwch y ffurf adeiledig. Byddai'r adeilad arfaethedig yn cael ei adeiladu yn unol ag arddull a ffurf adeilad amaethyddol nodweddiadol, ac felly ni fyddai'n ymddangos fel adeilad anghyffredin yn y lleoliad gwledig hwn. Yn ddarostyngedig i amod i reoli manyleb fanwl y gorffeniadau allanol, byddai'r cynnig yn gydnaws â'i lleoliad.
7. Mae safle'r apêl o fewn tirwedd sy'n cynnwys Afon Cwm Nantcol ac ardaloedd ucheldir y Rhinogydd. Yn ôl yr asesiad LANDMAP, mae'r ardaloedd hyn o werth uchel ac eithriadol. Er hynny, er bod llwybr troed cyhoeddus yn croesi'r safle, byddai golygfeydd o'r datblygiad yn lleol iawn, wedi'u cyfyngu'n bennaf i olygfeydd tymor byr i'r rhai sy'n defnyddio'r safle a'r llwybr troed. Mae'r safle wedi'i sgrinio gan goed a chynigir tirweddu ychwanegol. Nid yw'n hawdd ei weld o ffyrdd neu anheddau cyfagos. O ystyried bod y safle eisoes wedi'i ddatblygu, a bod graddfa, lleoliad a ffurf yr adeilad yn dderbyniol sut bynnag, ni fyddai'r cynnig yn newid golwg a chymeriad y safle mewn ffordd berthnasol nac yn cael unrhyw effaith weledol arwyddocaol ar y dirwedd ehangach.
8. Deuaf i'r casgliad bod y safle'n lleoliad addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig a fyddai'n cydymffurfio â Pholisiâu DP1 a DP2 y CDLI.

*Adeilad Rhestredig*

9. Mae safle'r apêl yn agos i Gapel Salem a bwthyn gofalwr cysylltiedig sy'n adeilad rhestredig Gradd II. Er hynny, mae gan y ddau safle eu lleoliad unigryw eu hunain ac nid ydynt yn cydberthyn mewn unrhyw olygfeydd na fistâu a rennir. Yn ogystal, mae gan y safle ddefnydd masnachol sefydledig eisoes, na fyddai'r cynnig yn newid ei natur mewn ffordd sylfaenol. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar leoliad yr adeilad rhestredig, a fyddai'n cael ei gadw. Felly, mae'r cynnig yn cydymffurfio â Pholisi Strategol Ff y CDLI, sy'n ceisio gwarchod a gwella tirwedd hanesyddol, asedau treftadaeth a threftadaeth ddiwylliannol Parc Cenedlaethol Eryri.

*Diogelwch ar y Priffyrdd*

10. Mae'r rhwydwaith ffyrdd amgylchynol yn droellog a chul mewn mannau, ond mae hyn eisoes yn wir ar gyfer defnydd sefydledig y safle. Mae'r apelydd wedi dweud y byddai'r safle'n cael ei ddefnyddio gan faniau maint 'transit' gydag oddeutu 10 o symudiadau y dydd. Nodaf nad yw Adran Briffyrdd Gwynedd yn gwrthwynebu'r cynnig, ond ei bod wedi argymhell amod i reoli nifer y symudiadau cerbydau trwm i 10 yn ystod yr wythnos a 5 ar fore dydd Sadwrn. Byddai hyn yn feichus i'r Awdurdod ei fonitro ac felly'n anodd ei orfodi. Sut bynnag, o ystyried defnydd sefydledig y safle, ac yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth go iawn i ddangos y byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd o bwys mewn traffig i'r safle ac oddi yno, byddai'r amod yn ddiangen. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael, deuaif i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn achosi unrhyw niwed o bwys i fuddiannau diogelwch ar y priffyrdd nac yn gwrthdaro â maen prawf ix Polisi DP1 y CDLI.

**Materion Eraill**

11. Rwyf wedi ystyried pryderon ynglŷn ag amwynder lleol, gan gynnwys effeithiau trafniadaeth ac arogleuon. Rwyf hefyd wedi ystyried pryderon eraill yn ymwneud â'r effeithiau ar dwristiaeth. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth ger fy mron i awgrymu y byddai'r cynnig yn annerbyniol am unrhyw un o'r rhesymau hyn.

**Amodau**

12. Mae'r Awdurdod wedi awgrymu sawl amod. Rwyf wedi ystyried y rhain yng ngoleuni'r cyngor yng Nghylchlythyr 016/2014 Llywodraeth Cymru 'Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu' (y Cylchlythyr).
13. Mae'r Cylchlythyr yn cynghori, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, na ddylai amodau gael eu gosod sy'n cyfyngu ar newidiadau defnydd yn y dyfodol y byddai'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn eu caniatáu fel arall. Prin yw'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod o unrhyw amgylchiadau o'r fath, ac ni welaf unrhyw beth sy'n awgrymu bod amod yn angenrheidiol yn hyn o beth. Nid yw amod sy'n ymwneud â symud unrhyw danc tanwydd ymaith yn angenrheidiol gan y byddai unrhyw faterion halogiad dŵr yn derbyn sylw yn yr amod ynglŷn â halogiad a ystyrir isod. Yn yr un modd, byddai amod sy'n mynnu bod manylion tanc septig yn cael eu cyflwyno yn cael ei ddyblygu gan amod draenio cyffredinol, ac nid yw'n angenrheidiol.
14. O ystyried defnydd blaenorol y safle, mae'n bosibl y gallai'r safle fod wedi'i halogi gan sylweddau a allai fod yn beryglus i'r amgylchedd neu iechyd. Mae tanc tanwydd yn debygol o fod yn bresennol ar y safle hefyd a allai fod o dan y ddaear ac achosi risg i ansawdd dŵr. Felly, mae angen ymchwilio i'r peryglon hyn, ac rwyf wedi gosod amod yn unol â hynny. Er mwyn amwynder cyffredinol, mae angen sicrhau bod unrhyw wastraff yn cael ei storio y tu mewn i'r adeilad. Mae amod i sicrhau bod tirweddu'n cael ei weithredu yn angenrheidiol er mwyn amwynder gweledol. Yn absenoldeb



unrhyw fanylion penodol yn y cais, rwyf hefyd wedi atodi amod sy'n mynnu bod gorffeniadau allanol yn cael eu cymeradwyo er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn gydnaws â'i amgylchoedd. Mae amod sy'n ymwneud â gweithredu mesurau lliniaru ar gyfer rhywogaethau a warchodir yn angenrheidiol i ddiogelu buddiannau ecolegol. Mae amod sy'n rheoli oriau dymchwel ac adeiladu yn angenrheidiol i warchod amodau byw preswylwyr cyfagos.

15. Er mwyn manwl gywirdeb a gorfodadwyedd, rwyf wedi diwygio geiriad rhai o'r amodau a awgrymwyd gan yr Awdurdod heb newid eu nod cyffredinol.

### **Casgliadau**

16. Wrth ddod i'm penderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"). Rwyf o'r farn bod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol gan adran 8 y Ddeddf.
17. Am y rhesymau uchod, ac ar ôl ystyried yr holl faterion a godwyd, caniateir yr apêl.

*P J Davies*

AROLYGYDD

## Atodlen Amodau

- 1) Bydd y datblygiad yn dechrau o fewn pum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.  
*Rheswm: I gydymffurfio ag Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.*
- 2) Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol: Cynllun Lleoliad; Lluniad Rhif 2633:18:3 – Cynllun Safle Arfaethedig; Lluniad Rhif 2633:18:5 – Sied Arfaethedig.  
*Rheswm: I ddiffinio'r caniatâd cynllunio.*
- 3) Cyn i'r datblygiad ddechrau, bydd manylion llawn draenio dŵr budr ac wyneb yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.  
*Rheswm: Er mwyn iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd ac i gydymffurfio â Pholisi DP1 y CDLI.*
- 4) Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes bod astudiaeth ddesg yn cael ei chynnal i asesu'r risgiau halogiad posibl, gan gynnwys y risgiau i ansawdd dŵr. Sicrhwr bod canlyniadau'r astudiaeth ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol cyn i unrhyw ddatblygiad ddechrau. Os bydd yr astudiaeth ddesg yn argymhell bod angen ymchwiliadau pellach ynglŷn â halogiad, mae'n rhaid i ymchwiliad ymwithiol a strategaeth adfer gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol trwy gais ffurfiol a'u cymeradwyo ganddo. Mae'n rhaid i'r strategaeth gymeradwy gael ei gweithredu yn unol â'r manylion argymhelledig.  
*Rheswm: Er mwyn diogelu'r amgylchedd ac iechyd ac i gydymffurfio â Pholisi DP1 y CDLI.*
- 5) Ni cheir storio sgiopiau casglu na deunydd gwastraff yn allanol.  
*Rheswm: Er mwyn amwynder lleol ac iechyd y cyhoedd ac i gydymffurfio â Pholisi DP1 y CDLI.*
- 6) Bydd y gwaith tirweddu'n cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy yn ystod y tymor plannu cyntaf yn syth ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau / ei feddiannu. Os bydd unrhyw goeden neu blanhigyn yn cael ei thynnu/dynnu ymaith, ei (d)diwreiddio neu ei (d)dinistrio neu'n marw neu, ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, yn cael ei (d)difrodi'n ddifrifol neu'n mynd yn ddifrifol ddiffygiol o fewn cyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad ei phlannu/blannu, bydd coeden neu blanhigyn arall o'r un rhywogaeth a maint â honno/hwnnw a blannwyd yn wreiddiol yn cael ei phlannu/blannu yn yr un man yn ystod y tymor plannu nesaf yn syth ar ôl i'r goeden honno farw/cael ei thynnu ymaith/cael ei dinistrio.  
*Rheswm: I warchod cymeriad a golwg yr ardal ac i gydymffurfio â Pholisi DP1 y CDLI.*
- 7) Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r argymhellion ar gyfer lliniaru a amlinellir yn yr Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol, gan gynnwys yr adroddiad arolygon ystlumod (Enfys Ecology 25 Tachwedd 2020).  
*Rheswm: I ddiogelu rhywogaethau a warchodir ac i gydymffurfio â Pholisi Strategol D y CDLI.*

- 8) Cyn i'r adeilad a gymeradwyir drwy hyn gael ei adeiladu, bydd manylion y lliw a'r gorffeniadau sydd i'w defnyddio wrth adeiladu arwynebau allanol yr adeilad yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn gydnaws â'i amgylchoedd ac i gydymffurfio â Pholisi DP1 y CDLI.*

- 9) Ni chaiff unrhyw waith dymchwel nac adeiladu ddigwydd y tu allan i 09:00 i 18:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener a 09:00 i 13:00 o'r gloch ar ddydd Sadwrn, ac nid ar unrhyw adeg ar ddydd Sul na Gwyliau Cyhoeddus.

*Rheswm: I ddiogelu amodau byw preswylwyr ac i gydymffurfio â Pholisi DP1 y CDLI.*



## Penderfyniad ar yr Apêl

Ymweliad â safle a wnaed ar 24/05/21

gan P J Davies, BSc (Hons) MA MRTPI

Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru

Dyddiad: 5/7/21

## Appeal Decision

Site visit made on 24/05/21

by P J Davies, BSc (Hons) MA MRTPI

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Date: 5/7/21

Cyf yr apêl: APP/H9504/A/21/3272536

Cyfeiriad y safle: Tir ger Brig Y Don, Aberdyfi, LL35 0NH

**Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar yr apêl hon i mi fel yr Arolygydd penodedig.**

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Gwneir yr apêl gan Mr Willis yn erbyn penderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf: NP5/50/679D dyddiedig 24 Tachwedd 2020, trwy hysbysiad dyddiedig 21 Ionawr 2021.
- Y datblygiad a gynigir yw annedd newydd ar dir sy'n gysylltiedig â Brig Y Don, Aberdyfi.

## Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

### Prif Faterion

2. Sef a) effaith y cynnig ar gymeriad a golwg yr ardal o gwmpas, o ystyried ei leoliad yn Ardal Gadwraeth Aberdyfi a b) yr effaith ar amodau byw trigolion.

### Rhesymau

#### Cymeriad a golwg

3. Mae safle'r apêl uwchben canol y pentref yn edrych dros yr aber ac mae o fewn Ardal Gadwraeth Aberdyfi. Mae'n cynnwys safle afreolaidd ar ogwydd, yn fwy cul ar y blaen ac yn fwy llydan yn y cefn. Mae ganddo ffryntiad agored i'r ffordd ond, fel arall, mae wedi'i amgáu ac yn gogwyddo i lawr tuag at ffiniau gydag eiddo i'r de sydd ar lefel sylweddol is. Mae'r ardal amgylchynol yn bennaf breswyl gyda thai wedi'u hadeiladu i mewn i ochr y bryn yn wynebu'r aber. Wrth fynd at y safle o'r pentref is, mae patrwm y datblygiad yn teimlo'n dynn o ganlyniad i'r bythynnod teras bach, strydoedd mynediad cul ac adeiladau'n agos i'r ffordd. Fodd bynnag, y tu hwnt i hen swyn canol y pentref, mae'r patrwm datblygu'n ehangach. Ar Hopeland Road, ger safle'r apêl, nodweddir cynllun a chymeriad y tai yn gyffredinol gan anheddau o'r 20fed ganrif gynnar wedi'u gosod allan mewn lleiniau helaeth wedi'u tirlunio, sy'n rhoi nodweddiad gwyrdd dymunol i'r ardal. Mae hon yn nodwedd bwysig o'r rhan hon o'r Ardal Gadwraeth sy'n cyfrannu at ei diddordeb a chymeriad cyffredinol.
4. Bu diwygiadau i'r cynnig a ostyngodd daldra'r annedd arfaethedig a'i gosod ymhellach i ffwrdd o'r ffin. Serch hynny, ni fyddai gan yr annedd lawer o le o gwmpas y rhan

fwyaf o'r ffiniau. O ffryntiad Hopeland Road, byddai'n arbennig o agos i'r ffiniau ymyl, gan bron â llenwi rhan gulach y llain. Yn ogystal, er y byddai'r annedd wedi'i gosod yn ôl, byddai'r ardal barcio'n cwmpasu mwyafrif y ffryntiad ac y byddai ei chynllun a maint yn arwain at gerbydau'n closio'n ormodol ar y gweddwlun blaen. Byddai agosrwydd y gweddwlun deulawr i'r ffin yn y cefn hefyd yn arwain at berthynas agos â'r ddwy annedd islaw, a fyddai, ar y cyd â'r gwahaniaeth mawr yn lefel y tir, yn gwaethygu natur gyfyng y datblygiad. Yn y safle uwch hwn, byddai'r effeithiau annerbyniol hyn yn amlwg yn y golygfeydd yn yr Ardal Gadwraeth, o Balkan Hill, Hopeland Road a Church Street.

5. Gwelaf y byddai'r cynnig yn arwain at lain gyfyng ac wedi'i gorddatblygu na fyddai'n gydnaws â chapasiti a chymeriad ei chyd-destun. Byddai hyn yn niweidio cymeriad a golwg yr ardal a byddai'n methu â gwarchod cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Felly, mae'r cynnig yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1 (DP1) a Pholisi Strategol Ff Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLI).

#### *Amodau Byw*

6. Rhennir ffin ddeheuol gefn y safle gyda gerddi Bryneglwys, adeilad ar Church Street sydd wedi'i rannu'n fflatiau Mae'r ffiniau ymyl gorllewinol a dwyreiniol yn agos at erddi preswyl hefyd. O ran preifatrwydd, byddai amod sy'n sicrhau gweithredu a chadw triniaethau ffiniau'n sicrhau na fyddai colli annerbyniol o breifatrwydd o'r ffenestr llawr gwaelod isaf a'r drysau. Byddai gan yr annedd arfaethedig ffenestr lefel uwch fawr yn wynebu'r de dros doeon Bryneglwys. O ystyried yr ongl weledd a'r berthynas letraws gyda'r gerddi gerllaw, rwy'n fodlon na fyddai tarfu difrifol ar breifatrwydd.
7. Serch hynny, oherwydd lleoliad yr annedd arfaethedig yn agos i ffin ddeheuol gefn Bryneglwys ac o ystyried ei safle uwch, byddai'r datblygiad yn sefyll uwchben y gerddi cyfagos. Ystyriaf y byddai ei leoliad, agosrwydd ac uchder yn gyfystyr â ffurf adeiledig dominyddol. Byddai hyn yn arwain at ddatblygiad gormesol a fyddai'n cwtogi'n ddifrifol ar y golygfeydd ac yn niweidio'n sylweddol amodau byw meddianwyr y fflatiau ym Mryneglwys. Byddai'r cynnig felly'n gwrthdaro â Pholisi DP1 y CDLI sydd, ymhlith pethau eraill, yn ceisio diogelu amwynder yr eiddo gerllaw.

#### **Materion Eraill**

8. Mae un o resymau'r Awdurdod dros wrthod yn perthyn i fethiant y cynnig i ddarparu mesurau gwella bioamrywiaeth. Fodd bynnag, gan fy mod wedi cael y cynnig yn annerbyniol am resymau eraill, ni fyddaf yn trafod y mater hwn ymhellach.
9. Mae'r apelydd wedi tynnu fy sylw at ddatblygiadau eraill yn lleol. Serch hynny, prin iawn fydd cyd-destun ac amgylchiadau safleoedd unigol yn debyg ac rwyf wedi penderfynu ar yr apêl hon ar ei rhinweddau ei hun. Yn unol â sylwadau'r apelydd, mae'r datblygiadau eraill hyn yn ddominyddol ac ystyriaf felly nad ydynt yn enghreifftiau da i'w dilyn, o reidrwydd. Nid ydynt felly'n cyfiawnhau'r niwed rwyf wedi'i amlygu.
10. Wrth gyrraedd fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r apelydd yn ystyried bod penderfyniad yr Awdurdod yn groes i'r nod o gyflawni Cymru fwy cyfartal. Gwneir hyn ar y sail y gwahaniaethir yn eu herbyn oherwydd maint y llain a bod heb ardd fawr. Fodd bynnag, rwyf wedi penderfynu ar yr apêl ar ei rhinweddau ei hyn a chan ystyried ystyriaethau cynllunio pwysig a'r cynllun datblygu. Ni fyddai'r cynnig yn cyfrannu at le cynaliadwy gan y byddai'n niweidio cymeriad a golwg yr ardal ac yn methu gwarchod amgylchedd hanesyddol arbennig. O ganlyniad, byddai'n groes i'r nod o greu Cymru sy'n arbennig a naturiol, yn gyfrifol yn fyd-eang ac yn wydn. Ystyriaf fod y

penderyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o nodau llesiant Gweinidogion Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 8 y Ddeddf.

11. Am y rhesymau uchod ac, ar ôl ystyried yr holl faterion a godwyd, gwrthodir yr apêl.

*P J Davies*

AROLYGYDD